



Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru **Adolygiad o'r cynnydd o ran gweithredu argymhellion ar ddarpariaeth y Gwasanaethau Addasu yng Nghymru**

Paratowyd gan CEL Transform

Tachwedd 2010
CEL Transform
Bleaklow House
Howard Town Mill
Glossop
Derbyshire
SK13 8HT

Ffôn: 0845 864 5201
Symudol: 07525 905 211
E-bost: cpratt@cel.co.uk

Mynegai	Rhif Tudalen
A. Amcanion yr adroddiad	2
B. Methodoleg	3
C. Cyd-destun	4
D. Cynnydd Cyffredinol ers 2005	6
E. Canfyddiadau	8
F. Deddfwriaeth	9
G. Ariannu	13
H. Oedi	23
I. Plant Anabl	25
J. Tenantiaid y Cyngor	27
K. Tenantiaid RSL	28
L. Cofrestrau Tai a Addaswyd ar gyfer Tai Cymdeithasol	30
M. Mân Addasiadau	32
N. Rhaglen Addasiadau Brys	35
O. Argymhellion	36
Deddfwriaeth	36
Ariannu	37
Oedi	37
Tenantiaid cymdeithas dai	37
Cofrestrau tai hygyrch	38
Therapyddion Galwedigaethol	38
Cyffredinol	38
 Astudiaethau Achos Sefydliadol	 39
 Astudiaethau Achos Cleientiaid	 45
 Adborth o Ymgynghoriad Cwsmeriaid	 46
 Adborth o Weithdai	 48
 Canllawiau ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig	 50

A. Amcanion yr adroddiad

Penodwyd CEL Transform gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad cadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth, ar y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r argymhellion a wnaed gan Chris Jones yn ei adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005. Gwnaeth yr adroddiad 37 o argymhellion; caiff y rhain eu rhestru isod.

Gwnaed y gwaith hwn mewn ymateb i'r adroddiad a luniwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn 2009: "Yn Dal i Aros, Gwasanaethau Addasu a Chynnal a Chadw Cartrefi i Bobl Hŷn", a amlygodd bryder ynghylch y ddarpariaeth gwasanaeth cymorth ac addasiadau sy'n cwestiynu graddfa'r cynnydd a wnaed ers 2005.

Amcanion yr ymchwil yw:

- Nodi'r camau penodol sydd wedi'u cymryd er mwyn gweithredu pob un o'r 37 argymhelliad yn adroddiad 2005
- Asesu'r cynnydd a wnaed yn ogystal â'r buddion a'r effeithiau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r gweithredu
- Gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw weithredu pellach sydd angen eu gwneud a gan bwy.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i adlewyrchu amcanion yr ymchwil. Mae'n cynnwys adran fer yn nodi'r fethodoleg. Yn dilyn hyn mae gwybodaeth ynglŷn â'r cyd-destun y darperir Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) a'r newidiadau yn yr amgylchedd allanol ers 2005. Mae'r adran nesaf yn adolygu cynnydd cyffredinol ers 2005. Dilynr hyn gan adran sydd yn nodi cynnydd yn erbyn bob un o'r 37 argymhelliad yn adroddiad 2005. Yn olaf, mae adran sy'n rhestru'r argymhellion ar gyfer gweithredu pellach. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o astudiaethau achos cryno ac yn amlygu meysydd o arfer da a ganfuwyd yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol.

B. Methodoleg

Mae'r wybodaeth wedi'i chasglu drwy:

- Ddadansoddiad bwrdd gwaith o'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys gwybodaeth polisi a pherfformiad.
- Cyfweiliadau wyneb yn wyneb ag unigolion allweddol o'r gweithgor a sefydlwyd i ystyried adroddiad EOC.
- Cyfweiliad wyneb yn wyneb ag awdur adroddiad 2005, sydd bellach yn rheolwr-gyfarwyddwr Gofal a Thrwsio Cymru
- Ymweliad â 3 awdurdod lleol i edrych yn fanylach ar eu dull o wneud DFGs ac addasiadau yn gyffredinol
- Cyfweiliadau wyneb yn wyneb â'r swyddogion perthnasol o nifer o awdurdodau lleol
- Cyfweiliadau ffôn gyda staff allweddol o awdurdodau lleol, asiantaethau gofal a thrwsio, a chymdeithasau tai a
- Chyfweiliadau dros y ffôn a'r rhai sy'n derbyn DFG, yn ogystal â nifer fechan o ymweliadau â'r cartref.

C. Cyd-destun

Mae addasiadau yn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain a thrwy hynny, aros yn annibynnol am fwy o amser. Gall hyn hefyd alluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi ar ôl cyfnod yn yr ysbyty neu mewn gofal preswyl. Gall addasiadau cael eu gwneud i gwrdd â gofynion plant ag anabledd, oedolion o oedran gweithio gydag anabl a phobl hŷn ag anabledd. Mae mwyafrif yr addasiadau a ariennir gan DFG yn rhai ar gyfer pobl hŷn.

Gellir ariannu addasiadau o nifer o ffynonellau gwahanol, yn dibynnu ar ddaliadaeth yr unigolyn sydd yn derbyn yr addasiadau yn ogystal â graddfa'r addasiadau angenrheidiol. Gallant eu darparu drwy gymdeithas dai, asiantaeth Gofal a Thrwsio neu'r awdurdod lleol, a gallant eu hariannu gan yr unigolyn sydd yn derbyn y gwasanaeth, y landlord, neu gan yr asiantaeth Gofal a Thrwsio neu'r awdurdod lleol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr addasiadau a ddarperir gan awdurdodau lleol yn bennaf i berchen-feddianwyr ac o bryd i'w gilydd i'r rheiny sydd yn rhentu yn breifat, er hynny mae hefyd yn cyffwrdd â'r gwaith a wneir gan asiantaethau Gofal a Thrwsio a'r cymdeithasau tai. Yr awdurdod lleol yw'r unig gorff sydd â dyletswydd statudol i gynnal addasiadau.

Ni chaiff addasiadau eu darparu ar eu pen eu hunain ond cânt eu pennu o fewn map cymhleth o wasanaethau eraill. Weithiau gall addasiad leddfu'r angen am wasanaethau eraill neu oedi'r angen i gyflwyno gwasanaethau eraill; weithiau gall yr addasiad eistedd ochr yn ochr â gwasanaethau eraill i ddiwallu anghenion cyffredinol y cwsmer. Mae gwasanaethau addasu yn cyd-fynd ag amcanion polisi cenedlaethol gyda phwyslais ar ataliad a chadw pobl yn eu cartrefi eu hunain yn hirach. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos yr awdurdodau lleol a'r asiantaethau Gofal a Thrwsio hynny sydd yn gynyddol yn mabwysiadu dull cyfannol, a chreu cysylltiadau rhwng addasiadau a gofal yn y cartref, tele-ofal, a gwasanaeth cymorth eraill.

Roedd y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru eisoes mewn grym pan gafodd adroddiad 2005 ei ysgrifennu er hynny cafodd ei adnewyddu yn 2007. Roedd hyn yn parhau â'r pwyslais ar gynnal annibyniaeth pobl hŷn gan roi pwyslais cynyddol ar ddewis, gan gynnwys cyllidebau annibynnol ar gyfer gofal a chymorth. Cadarnhawyd mai'r pedair prif thema yw:

- Gwerthfawrogi pobol hŷn, cynnal a datblygu ymrwymiad
- Cymdeithas sy'n newid, y statws economaidd a chyfraniad pobol hŷn
- Lles ac annibyniaeth
- Gwneud iddo ddigwydd, cyflawni'r strategaeth

Gall addasiadau gyfrannu'n benodol at them lles ac annibyniaeth, ond gallant hefyd alluogi pobl ag anabledd (neu sydd â nam ar symudedd) i barhau i gyfrannu at gymdeithas.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu swydd benodol o fewn pob awdurdod lleol i hyrwyddo buddiannau pobl hŷn a sefydlu grwpiau "50 a throsodd" ym mhob ardal. Ymysg y prif themâu i nifer o'r grwpiau hyn mae atal syrthio a hyrwyddo technoleg gynorthwyol, ond mewn nifer o ardaloedd nid oes cysylltiadau wedi'u gwneud rhwng y

gwasanaethau hyn a DFGs. O 2009/10 ymlaen, ni chaiff yr arian ar gyfer y swyddi hyn eu clustnodi mwyach ac felly gall y swyddi fod mewn perygl o ystyried y pwysau ariannol sydd ar awdurdodau lleol.

Ers 2005, rydym hefyd wedi gweld y model cymdeithasol o anabledd yn cael ei fabwysiadu yn eang, sy'n annog darparwyr gwasanaeth i ddeall profiadau'r unigolyn anabl ac i ddarparu atebion wedi'u llunio i'r unigolyn yn hytrach nag ymdrin â'r mater mewn dull safonol. Nid yw'r model cymdeithasol o anabledd wedi'i fabwysiadu yn eang gan y rhai sydd yn gweinyddu DFGs, er mai hyn yw'r dull a gymerir gan rai o'r gwasanaethau addasiadau gorau.

Yn olaf, un addasiad arall o bwys ers 2005 yw cyflwyno trosglwyddiad gwirfoddol ar raddfa stoc fawr (LSVT) o awdurdodau lleol Cymru i gymdeithasau tai newydd. Nid oes gan gymdeithasau LSVT hawl i gael Grant Addasiadau Ffisegol (PAG) a disgwylir iddynt dalu am y gost o'r addasiadau angenrheidiol o'u hadnoddau eu hunain.

D. Cynnydd Cyffredinol ers 2005

Yn 2009 fe ddaeth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i'r casgliad nad oedd y darlun ledled Cymru wedi gwella ryw lawer ers 2005. Mae ein canfyddiadau ni yn dangos gwelliant cyson ac arwyddocaol yn yr amser cyfartalog a gymerir i brosesu DFGs ledled Cymru. Mae perfformiad a fesurir gan y tri PIs wedi gwella yn sylweddol dros y cyfnod hwnnw. Mae'r amser cyfartalog a gymerir i brosesu DFG wedi lleihau o 545 diwrnod (2005/6) i 349 diwrnod (2009/10) - gostyngiad o 196 diwrnod. Mae 19 allan o'r 22 awdurdod wedi lleihau'r amser a gymerir i brosesu DFGs. Cafwyd gostyngiad yn yr amser i brosesu addasiadau ar gyfer tenantiaid y cyngor, er yn llai amlwg - o 215 i 187 diwrnod (2005/6 - 2008/9, o 2009/10 nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu mwyach oherwydd y nifer uchel o awdurdodau lleol nad oes ganddynt stoc bellach). Cafwyd gostyngiad hefyd yn nifer y diwrnodau i brosesu mân addasiadau y tu allan i'r system DFG, o 85 i 57 diwrnod (2005/6 i 2009/10). Mae lle i wella o hyd, er hyn mae'r awdurdodau lleol yn rhoi mwy o sylw i'r cydbwysedd rhwng cyflymder, cyfranogiad/rheolaeth y cwsmer, a safon y canlyniad.

Tabl 1 - perfformiad yn erbyn PRS002 - amser cyfartalog a gymerir i brosesu DFG (tabl a sylwebaeth wedi'u diweddarau)

	2006/7	2007/8	2008/9	2009/2010	Gwelliant dros y cyfnod cyfan?	Nifer y dyddiau Gwelliant 2006/7 – 2009/10
Blaenau Gwent	428	379	384	362	I	66
Pen-y-Bont ar Ogwr	462	286	328	318	I	144
Caerffili	458	397	394	397	I	61
Caerdydd	623	422	220	189	I	434
Sir Gaerfyrddin	357	472	349	319	I	38
Ceredigion	561	585	533	533	I	28
Conwy	905	642	390	237	I	668
Sir Ddinbych	452	355	322	381	I	71
Sir y Fflint	656	607	297	347	I	309
Gwynedd	318	364	442	359	N	-
Merthyr Tudful	434	291	339	239	I	195
Sir Fynwy	336	263	211	260	I	76
Castell-nedd a Phort Talbot	609	571	675	692	N	-
Casnewydd	579	404	364	462	I	117
Sir Benfro	1112	823	624	550	I	488
Powys	543	499	440	-	I	103
Rhondda Cynon Taf	434	446	303	253	I	181
Abertawe	653	487	378	370	I	283
Tor-faen	412	310	206	273	I	139
Bro Morgannwg	617	868	1046	802	N	-
Wrecsam	705	476	460	387	I	318
Ynys Môn	565	523	451	387	I	178
Cyfartaledd Cymru	544.58	453.34	374.65	349.04	I	169.93

Er bod y ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru ar gyfer addasiadau i denantiaid awdurdodau lleol yn dangos gwelliant tebyg, mae darlun mwy amrywiol yn bodoli ar lefel yr awdurdodau lleol. Mae'r wybodaeth yn anghyson; nid yw rhai awdurdodau lleol wedi cofnodi'r wybodaeth hon, tra bod eraill wedi trosglwyddo stoc ac felly heb denantiaethau awdurdodau lleol i adrodd arnynt. Nid oes gofyniad i gofnodi amserlenni ar gyfer addasiadau i eiddo cymdeithasau tai, yn cynnwys y rheiny o dan ofal LSVTs.

Tabl 2 – PRS003 – amser cyfartalog a gymerir i brosesu addasiadau ar gyfer tenantiaid awdurdod lleol

	2006/7	2007/8	2008/9	Gwelliant?	Nifer y dyddiau Gwelliant
Blaenau Gwent	146	202	301	N	-
Pen-y-Bont ar Ogwr	-	-	-	-	-
Caerffili	211	215	249	N	-
Caerdydd	-	0	72	N	-
Sir Gaerfyrddin	482	385	303	I	179
Ceredigion	380	243	258	I	122
Conwy	715	357	277	I	438
Sir Ddinbych	-	525	242	I	283
Sir y Fflint	29	32	23	-	-
Gwynedd	280	308	195	-	-
Merthyr Tudful	279	146	46	I	233
Sir Fynwy	-	-	-	-	-
Castell-nedd a Phort Talbot	396	345	-	-	-
Casnewydd	-	-	-	-	-
Sir Benfro	205	245	212	N	-
Powys	259	162	-	-	-
Rhondda Cynon Taf	341	-	-	-	-
Abertawe	472	408	367	I	105
Tor-faen	350	310	-	-	-
Bro Morgannwg	-	0	-	-	-
Wrecsam	87	103	169	N	-
Ynys Môn	195	168	123	I	72
Cyfartaledd Cymru	215.24	208.2	186.67		

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol hefyd yn cadw data bodlonrwydd cwsmeriaid ac yn nodi bod hyn ar y cyfan yn uchel iawn – 90% neu'n uwch ar gyfer mwyafrif yr awdurdodau. Mae ein hymgyngoriad ni gyda chwsmeriaid yn tueddu i gadarnhau bod y cyfraddau bodlonrwydd yn uchel iawn. Mae teimlad bod disgwyl i'r gyfradd fodlonrwydd hon fod yn uchel: mae'r cwestiwn yn cael ei ofyn pan fydd unigolyn newydd dderbyn y gwasanaeth ac efallai bod hyn yn fwy amlwg yn y cof na'r arhosiad hir a arweiniodd at hynny. Dylid nodi bod y mwyafrif o'r rhai y siaradwyd â hwy yn fodlon gyda hyd yr arhosiad y bu'n rhaid iddynt aros.

Mesur defnyddiol arall yw nifer yr OTs a gyflogir gan yr awdurdodau lleol. Mae hyn eto wedi codi ers 2005: o 187 (159.34 Cyfwerth ag Amser Llawn (WTE)) yn 2004/5 i 228 (197 WTE) yn 2007/8. Mae nifer o awdurdodau yn defnyddio pobl nad ydynt yn OTs ar gyfer mân

Adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru Hydref 2010 newidiadau, sydd yn rhyddhau'r OTs i ddelio ag achosion mwy cymhleth. Mae nifer o esiamplau o waith arfer da rhwng OTs a'r timoedd technegol.

Nid yw'r gwariant cyffredinol ar DFGs yn llawer uwch nag ydoedd yn 2003/4. Mae adroddiad 2005 yn dangos cynnydd cyson mewn gwariant yn ystod y cyfnod o 2001/2 i 2003/4, o £28.7m i £33.5m. Erbyn 2008/9 cynyddodd hyn eto i £34.4m ond yn 2009/10 disgynnodd y gwariant i £32.5m. Ond eto, mae'r darlun yn amrywio yn ôl awdurdod lleol, mae rhai awdurdodau wedi cynyddu eu gwariant tra bod eraill wedi gwneud toriadau sylweddol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn pryderu ynghylch eu gallu i gynnal gwariant ar DFGs yng nghyd-destun yr heriau cyllidebol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn y flwyddyn nesaf.

Tabl 3 – gwariant ar DFGs yn ôl awdurdodau lleol 2008/9 a 2009/10

Awdurdod	Gwariant DFG 2008/9 £ miloedd	Gwariant DFG 2009/10 £ miloedd	Newid mewn gwariant £ miloedd	Newid % mewn gwariant
Blaenau Gwent	900	944	44	5
Pen-y-Bont ar Ogwr	2,583	2,636	54	2
Caerffili	1,228	1,025	-203	-17
Caerdydd	5,176	4,266	-910	-18
Sir Gaerfyrddin	1,263	1,836	572	45
Ceredigion	1,117	1,063	-54	-5
Conwy	1,787	1,552	-235	-13
Sir Ddinbych	934	1,046	112	12
Sir y Fflint	2,137	2,747	610	2
Gwynedd	781	724	-57	-7
Merthyr Tudful	625	654	29	5
Sir Fynwy	332	524	193	58
Castell-nedd a Phort Talbot	2,238	1,180	1,058	-47
Casnewydd	1,491	515	-977	-65
Sir Benfro	827	1,067	240	29
Powys	937	787	-150	-16
Rhondda Cynon Taf	3,359	3,135	-224	-7
Abertawe	3,119	2,907	-212	-7
Tor-faen	1,252	1,245	-7	-1
Bro Morgannwg	1,708	1,637	-71	-4
Wrecsam	125	347	222	178
Ynys Môn	485	687	202	42
Cyfarteledd Cymru	34.404	32,523	-1,881	-5

Felly, yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth wedi gwella ers 2005, ac mae'r cwsmeriaid yn hapus gyda'r ddarpariaeth ar y cyfan. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu nad oes lle i welliant pellach.

E. Canfyddiadau yn erbyn y prif argymhellion o adroddiad 2005

Nodir pob un o'r 37 argymhelliad isod, ynghyd â sylwebaeth.

F. Deddfwriaeth

1. Dylai'r fframwaith deddfwriaethol gyfredol barhau

Yn gyffredinol credir bod y fframwaith deddfwriaethol gyfredol yn addas ac yn briodol. Mae teimpladau cryf y dylai'r DFG barhau i fod yn grant gorfodol.

Mae rhywfaint o densiwn ynghylch y ffaith nad oes disgwyl i denantiaid cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol i hawlio DFG ond eto yn cadw'r hawl gyfreithiol i'w gael. Fodd bynnag, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau drefniadau yn lleol i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at y sefydliad priodol ac mae barn gref yw nad oes angen newid y ddeddfwriaeth i ddelio â hyn.

Mae hefyd materion ynghylch y prawf modd, gyda nifer o awdurdodau lleol yn credu bod yr adnoddau a fuddsoddir i wneud y prawf modd yn anghymesur â'r nifer o bobl sydd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol. Efallai y bydd hi'n afrealistig i ddiddymu'r prawf modd ond efallai y gellir ei symleiddio.

Mae Tor-faen wedi nodi bod tua 25% o bobl heb barhau â'r DFG ar ôl iddynt ddeall bod yn rhaid iddynt wneud cyfraniad ariannol yn dilyn y prawf adnoddau. Maent bellach yn cynnig benthyciad i'r rheiny sy'n rhaid cyfrannu at gost addasiadau, gyda chynllun ad-dalu hyblyg mewn camau a allai gael ei redeg am hyd at ddwy flynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin yn rhedeg cynllun benthyciadau. Gall ymgeiswyr fenthyc arian ar gyfer unrhyw gyfraniad sydd angen iddynt wneud. Maent yn gweithio gydag Aston Reinvestment Trust, corff di-elw sydd hefyd yn gweithio yn Lloegr. Yn bennaf gwaith adnewyddu yw hwn ond mae hefyd yn gysylltiedig â cheisiadau DFG.

2. Dylai cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth glir ynglŷn â DFG a gwasanaethau addasu fod yn ofyniad craidd ar gyfer y fframwaith perfformiad y Cynulliad ar gyfer awdurdodau lleol

Mae creu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth glir ynglŷn â DFGs a gwasanaethau addasu yn faes lle mae lle sylweddol i wella. Yn ein hymgyngoriad daethom ar draws nifer fechan ond sylweddol o gwsmeriaid nad oeddynt yn ymwybodol o'r gwasanaeth cyn iddynt gael eu cyfeirio ato (ar y cyfan gan weithiwr iechyd proffesiynol). Mewn nifer o'r achosion hyn roeddynt wedi cynnal eu haddasiadau eu hunain, er hyn roedd y datrysiadau yn rhai byrdymor yn unig ac felly roedd rhaid eu disodli pan ddaeth yr awdurdod lleol yn rhan. Roedd diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn â'r gwasanaeth wedi arwain iddynt wario arian yn ddiangen ac efallai wedi arwain at ddirywiad yn iechyd y cwsmer.

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynhyrchu gwybodaeth mewn copi caled ac ar eu gwefannau gan esbonio'r gwasanaethau a gynigir. Mae safon y rhain yn gymysg, yn ogystal â'r gallu i ganfod gwybodaeth ar y wefan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n gweithio

gydag Age Cymru i greu llyfryn gwybodaeth a allai fod ar gael ym mhob un o'r awdurdodau lleol ac asiantaethau Gofal a Thrwsio.

Mae nifer fechan o awdurdodau lleol yn hysbysebu'r gwasanaeth addasiadau. Mae un awdurdod lleol yn cynnal digwyddiad "sioe deithiol" yn mynd o amgylch gwahanol ardaloedd i hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau'r cyngor gan gynnwys DFGs. Roedd nifer o awdurdodau lleol yn amharod i hysbysebu'r gwasanaeth gan eu bod yn poeni y bydd cynnydd sylweddol yn y galw ac na fyddant yn gallu ateb y galw hwnnw o fewn y gyllideb. Fodd bynnag, heb hyrwyddo, fel hysbysebu, mae'r gwasanaeth mewn gwirionedd yn cael ei ddogni gan ddiffyg gwybodaeth.

Er mwyn i DFGs gyflawni'r nod o gynnal annibyniaeth am hirach ac atal gorfod mynd i ofal preswyl neu ysbyty, mae angen i fwy o weithwyr iechyd fod yn ymwybodol o nid yn unig bodolaeth DFGs ond beth y gellir eu darparu drwyddynt. Gwelwyd bod nifer o gwsmeriaid yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol gan weithiwr iechyd proffesiynol ond roedd achosion eraill pan fyddai cyfeirio cynt wedi bod yn ddefnyddiol. Mae OTs cymunedol ac OTs iechyd yng Nghymru â'u rhwydwaith proffesiynol eu hunain, mae cynlluniau i uno'r ddau grŵp yn rhannol a fyddai'n helpu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau addasu.

Yr argymhelliad yn adroddiad 2005 oed y dylai cynhyrchu'r wybodaeth hon fod yn ofyniad o fewn fframwaith perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Nid yw hyn wedi digwydd ac rydym bellach yn symud i ffwrdd o ofynion perfformiad rhagnodol. Hefyd, gallai fod yn anodd mesur ansawdd y wybodaeth a ddarperir drwy'r mathau hyn o ddangosyddion. Fodd bynnag, dylai fod yn glir mewn unrhyw ganllaw arfer da neu ddogfennau eraill sy'n nodi disgwyliadau perfformiad y dylai awdurdodau lleol arwain wrth darparu gwybodaeth glir a hygyrch am wasanaeth addasiadau yn eu hardaloedd.

Cynhaliodd Sir Gaerfyrddin 30 – 40 gweithdy o amgylch y sir bob blwyddyn i hyrwyddo amrywiaeth eang o wasanaethau i bobl hŷn, gan gynnwys DFGs a gwaith tebyg.

Mae Conwy yn cynnal 3 digwyddiad y flwyddyn i hyrwyddo holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys DFGs. Maent hefyd yn trefnu i daflenni am y gwasanaeth i fod ar gael drwy lyfrgelloedd, asiantaethau cyngor, meddygfeydd teulu a lleoliadau perthnasol eraill. Roedd Conwy yn ceisio i gael Nod Siarter am eu gwasanaeth DFG yn flaenorol; erbyn hyn maent yn bwriadu cyflawni safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid.

Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot ymweliadau dilynol â'r cartref i'r rheiny a gafodd DFG yn flaenorol ac wedi canfod nad oedd rhai yn defnyddio'r offer. Roedd yn well gan rai o'r rhain gael gofal cartref, ond nid oedd eraill yn hyderus i ddefnyddio'r offer neu'n cael trafferth deall sut i'w defnyddio. Roedd Conwy hefyd wedi cynnal ymweliadau dilynol rhwng 6 mis a blwyddyn ar ôl cwblhau i wneud yn siŵr bod y person yn deall sut i ddefnyddio'r offer.

Bydd nifer o awdurdodau lleol, gan gynnwys Conwy a Chastell-nedd Port Talbot, yn mynd â phobl i weld enghreifftiau o'r mathau o waith maent yn eu hystyried fel y bydd ganddynt gwell syniad o beth fydd y cynnyrch terfynol.

3. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gynhyrchu llyfryn ar gyfer cleientiaid a defnyddwyr y gwasanaeth a fyddai'n rhestru'r mathau o wasanaethau sydd ar gael, y swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Tai a Chymdeithasol, a safonau perfformiad dymunol.

Gweler y sylwadau uchod.

Mae gan Gonwy 6 fflat i'w defnyddio fel llety dros dro ar gyfer pobl anabl, mae 3 o'r rhain wedi'u haddasu i safon uchel iawn a 3 i safon is. Defnyddir y rhain fel cyfleuster ail-alluogi yn ogystal â llety dros dro ar gyfer teuluoedd digartref ac adleoli pobl.

Mae gan Rondda Cynon Taf 3 llety ail-alluogi ar gael sydd yn galluogi pobl i allu cael eu rhyddhau o'r ysbyty tra aros i'r addasiadau i'w cartrefi gael eu cwblhau, neu gellir eu defnyddio i adleoli pobl tra bod gwaith yn mynd rhagddo. Mae'r llety ail-alluogi yn galluogi pobl i ddefnyddio amrywiaeth o gymhorthion ac addasiadau ac fe'i defnyddir hefyd i arddangos cyfarpar i gwsmeriaid yn ogystal â hyfforddi staff.

4. Dylai'r modd o ddarparu addasiadau at y gost o £3000, a ddarperir ar hyn o bryd gan DFG, gael ei symleiddio a'u gwneud yn llai biwrocraidd. Dylai'r modd y cyflawnir hyn gael ei archwilio'n fanwl. Dylid archwilio'r opsiynau gan gynnwys defnyddio deddfwriaeth eilradd, datblygu cynllun newydd a ffrwd ariannu yng Nghymru, yn gysylltiedig â gwella darpariaeth ar gyfer byw'n annibynnol a'r argymhellion eraill yn adroddiad Wanless, a lobbïo ar gyfer newid y ddeddfwriaeth sylfaenol ar DFG er mwyn hwyluso hyn.

Mae darlun cymysg mewn perthynas â gwaith llai. Mae bron pob awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth wedi'i symleiddio ar gyfer addasiadau llai, er y caiff rhai o'r rhain eu rheoli drwy'r broses DFG, gan gynnwys prawf modd. Mae awdurdodau lleol eraill wedi eu cymryd allan o'r broses DFG yn llwyr. Mae gwahanol ddiffiniadau a chyfyngiadau ariannol o'r hyn sy'n cyfrif fel gwaith llai.

Gwelwyd sawl enghraifft o arfer da ar waith llai yn ein hadroddiad terfynol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cael manyleb safonol ar gyfer rhai mathau o waith
- rhestr o'r cyfraddau ar waith
- contractwyr a ffefrir gyda phrofiad blaenorol o'r math hwn o waith, a
- defnyddio cynorthwy-ydd OT neu swyddog technegol i benderfynu pa waith sydd angen ei wneud.

Mae cryn drafod o fewn awdurdodau lleol ynghylch y gost a buddiannau cymharol o gynnal gwaith llai mewn ymateb i ddiffiniad y cwsmer o'r angen yn erbyn asesiad llawn gan OT. Mae rhai awdurdodau o'r farn os y gall mân addasiad gael ei gyflawni yn gyflym ac os byddai'n galluogi'r unigolyn i barhau yn annibynnol am 6 neu 12 mis yna mae hyn yn gost-effeithiol o'i gymharu â'r gost o fynd i ofal preswyl. Mae awdurdodau eraill yn credu ei bod hi'n fwy cost-effeithiol i gymryd golwg hir dymor ar anghenion hyd yn oed os yw hyn yn golygu arhosiad

cychwynnol hirach i'r cwsmer. Mae'n anodd dweud a oes ffordd gywir o ymdrin â'r mater, gan fod hyn yn anad dim yn ddibynnol ar ddiffiniad lleol o ystyr gwaith llai ac ymglymiad yr OTs wrth oruchwylio gwaith yr OT neu'r cynorthwywyr technegol. Mae hi'n amlwg fodd bynnag ei bod hi'n gost-effeithiol i gwblhau gwaith yn gynt ac oedi wrth dderbyn unigolyn i ofal preswyl neu ysbyty: mae cost gymharol DFGs a gofal preswyl yn cael ei archwilio ymhellach isod.

5. Dylid lobio Llywodraeth y DU i ychwanegu at ddeddfwriaeth sylfaenol y gallu i adennill DFG ar werthiant, o fewn terfynau amser. Yn y cyfamser, dylid atgoffa awdurdodau lleol o'u gallu i gyflwyno amodau lleol wrth wneud cais i'r Cynulliad.

Mae'r ddarpariaeth hon bellach wedi'i chyflwyno ac mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn ei defnyddio neu'n ystyried ei defnyddio. Mae'r ddarpariaeth yn gymharol newydd ac mae ambell i achos lle mae'r eiddo wedi'i werthu a'r arian wedi'i adennill. Er hynny, mae'r awdurdodau lleol yn nodi nad yw gosod tâl ar eiddo yn effeithio'n andwyol ar faint sy'n defnyddio DFGs a dim ond nifer fechan o gwsmeriaid sy'n mynegi pryder am y tâl.

Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig benthyciadau ychwanegol ar gyfer y rheiny sydd angen gwneud cyfraniad sylweddol at gost yr addasiadau, a diogelu'r rhain yn erbyn gwerth yr eiddo mewn ffordd debyg.

6. Dylid archwilio'n fanwl y gallu i gyflymu DFG ac addasiadau mawr ar gyfer pobl anabl drwy'r system gynllunio

Nid oedd un o'r awdurdodau lleol a ymgynghorwyd â nhw hyd yma yn ystyried bod y broses o wneud cais cynllunio yn achosi oedi. Mae rhai enghreifftiau lle bu'n anodd cael caniatâd cynllunio oherwydd amgylchiadau penodol, megis addasu adeiladau rhestredig neu'r angen i osod ramp allanol. Er hynny, roedd swyddogion yn credu na fyddai defnyddio dull "llwybr cyflym" wedi gneud gwahaniaeth yn yr achosion hyn.

Enghraifft o arfer da y daethom ar ei draws oedd cynnwys y swyddog cynllunio yn yr ymweliad cyntaf fel y gallai werthfawrogi'r hyn roedd y OT a'r swyddog technegol yn ceisio'i gyflawni a'r anawsterau mae'r cwsmer yn ei wynebu, a hefyd bod mewn sefyllfa i gynnig cyngor a bod yn rhan o'r datrysiad.

G. Ariannu

Fel y nodwyd uchod, mae gwariant ar DFGs wedi aros yn gymharol gyson ers 2003/4, gyda chynnydd bychan at 2008/9 ac yna gostyngiad yn 2009/10. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn adrodd y gallant gadw gwariant ar DFGs o fewn y gyllideb heb angen gohirio gwaith ar ddiwedd y flwyddyn. Er hynny, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod os byddent yn gwella cyflymder prosesu ceisiadau byddent yn ei chael hi'n anodd i reoli o fewn y gyllideb. Mae'r amser prosesu cyfredol yn ymddwyn fel ffactor cyfyngu.

Er bod gwariant yr awdurdodau lleol wedi aros yn eithaf sefydlog, mae ffynonellau arian eraill wedi'i eu cyflwyno neu eu hehangu. Er enghraifft, mae gwariant ar Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAG; addasiadau a gwblhawyd gan gymdeithasau tai) wedi cynyddu o £1.5m yn 2004/5 i £8m yn 2008/9. Mae angen i gymdeithasau trosglwyddo stoc ariannu unrhyw addasiadau allan o'u cyllideb eu hunain, mae rhai yn gwario symiau arwyddocaol. Mae Cartrefi Conwy er enghraifft wedi cynnwys £775,000 yn eu cynllun busnes ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf (i alluogi cwblhau ôl groniad o geisiadau) ac yna £400,000 ar gyfer pob blwyddyn sy'n dilyn. Mae cymdeithasau tai traddodiadol hefyd yn defnyddio eu cronfa eu hunain mar adegau i dalu am waith addasu - er enghraifft, mae cymdeithas dai Gogledd Cymru yn talu'r gost o unrhyw waith sydd dros yr uchafswm ar gyfer PAG. Er hynny, nifer fechan o gymdeithasau tai sydd yn talu'r gost am fân addasiadau, mae hyn yn ddull sydd yn dod yn fwyfwy cyffredin yn Lloegr. Ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol, defnyddir y Lwfans Atgyweiriadau Mawr i ariannu gwaith addasiadau. Mae cyfraniadau oddi wrth wasanaethau cymdeithasol hefyd wedi cynyddu mewn nifer o'r awdurdodau lleol. Mae cyllideb DFG yn parhau i fod yn faes o wariant sylweddol, ond ni hi yn unig yw'r unig ffynhonnell o arian.

Mae peryg y gallai ffynonellau gwahanol o ariannu ar gyfer daliadaethau gwahanol achosi gwahaniaeth mewn gwasanaethau. Dylai awdurdodau tai strategol fapio'r gwahanol ffynonellau ariannol fel rhan o drosolwg strategol o sut mae gwasanaethau addasu yn gweithredu yn eu hardal hwy.

Pryder arall a lesiwyd gan rai o'r awdurdodau lleol yw bod y DFG bellach yn amsugno'r rhan fwyaf o'u gwariant ar dai sector preifat, ac felly yn cyfyngu ar waith arall fel ardaloedd adnewyddu, cymorth trwsio cartrefi a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae Tabl 4 yn dangos gwariant ar dai sector preifat yn 2009/10 yn ôl awdurdod lleol. Mae'n dangos cryn weithgarwch adnewyddu mewn rhai ardaloedd, ond mewn 9 awdurdod lleol roedd DFGs yn cynnwys dros dri chwarter gwariant ar dai sector preifat. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gwblhau gwaith arall, peth ohono sydd ei angen i gefnogi'r broses DFG. Er enghraifft, mae nifer o awdurdodau lleol yn adrodd bod cyflwr tŷ weithiau yn gallu golygu nad oedd yn bosibl cwblhau'r addasiad heb wneud gwaith ychwanegol i wella cyflwr yr eiddo. Esiampl o hyn fyddai gorfod ail-wefru i alluogi lifft grisiau gael ei osod yn ddiogel. Esiampl arall a roddwyd oedd yr angen i osod to newydd ar eiddo lle roedd y to yn gollwng yn ddifrifol ac felly yn golygu bod ystafell wely lle byddai lifft yn mynd drwyddi yn amhosibl byw ynddi.

Mae Tabl 4 hefyd yn amlygu i ba raddau y mae awdurdodau yn - neu ddim - yn defnyddio benthyciadau a chymorth arall i ychwanegu at y gwariant sector preifat (er bod y ffigurau yn y golofn hefyd yn cynnwys cyfraniadau gan y rheiny sy'n rhaid cyfrannu). Mae newid o ddefnyddio grantiau i fenthyciadau wedi bod yn araf yng Nghymru, gyda nifer o awdurdodau lleol yn nodi fod y diwylliant o fewn y maes maent yn gweithredu ynddo yn arwain at bobl i ddisgwyl derbyn grant - ac weithiau i wrthod derbyn y cynnig o fenthyciad. Er hynny, mae rhai awdurdodau yn defnyddio benthyciadau yn llwyddiannus iawn i ymestyn eu gwariant, ac mae un awdurdod yn hyrwyddo benthyciadau ar gyfer y rheiny sydd angen gwneud cyfraniad ariannol i'r gwaith.

Tabl 4 – gwariant tai sector preifat yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod	Cyfanswm sector preifat Gwariant adnewyddu (yn cynnwys DFG) £ miloedd	Gwariant DFG 2009/10 £ miloedd	Cyfanswm sector preifat Gwariant adnewyddu (dim DFG) £ miloedd	Cymorth arall
Blaenau Gwent	2,004	944	1,060	28
Pen-y-Bont ar Ogwr	2,824	2,636	188	21
Caerffili	3,257	1,025	2,232	103
Caerdydd	6,571	4,266	2,305	22
Sir Gaerfyrddin	2,417	1,836	581	2
Ceredigion	2,834	1,063	1,771	380
Conwy	1,843	1,552	291	9
Sir Ddinbych	1,705	1,046	659	2
Sir y Fflint	3,078	2,747	331	0
Gwynedd	2,350	724	1,626	191
Merthyr Tudful	805	654	151	50
Sir Fynwy	524	524	0	0
Castell-nedd a Phort Talbot	2,319	1,180	1,139	16
Casnewydd	1,513	515	998	179
Sir Benfro	2,569	1,067	1,502	34
Powys	2,806	787	2,019	768
Rhondda Cynon Taf	8,843	3,135	5,708	232
Abertawe	3,156	2,907	249	0
Tor-faen	1,246	1,245	1	0
Bro Morgannwg	2,122	1,637	485	29
Wrecsam	3,275	347	2,928	276
Ynys Môn	1,263	687	576	0
Cyfarteledd Cymru	59.326	32,523	26,803	2,341

Ffynhonnell: Ystadegau i Gymru, cyhoeddwyd y ffigurau 16 Medi 2010

7. Mae natur orfodol DFG a'r angen i gynnal rhaglen y DFG yn briodol yn golygu y dylai hyn gael ei atgyfnerthu i'r holl awdurdodau lleol

Fel y nodwyd uchod, mae barn gref y dylai DFGs aros yn grant gorfodol.

Mae mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn dynodi bod DFGs yn cael y flaenoriaeth uchaf a bod arian yn cael ei glustnodi o fewn yr awdurdod i sicrhau y gellir gwireddu'r rhaglen waith. Mae nifer fechan o awdurdodau lleol yn gorfod gohirio gwaith o un flwyddyn i'r llall oherwydd cyfyngiadau cyllideb, ond mae'r rhan fwyaf yn derbyn bod ffactorau eraill yn helpu i gyfyngu ar wariant. Mae peth pryder am y graddau y bydd gwariant DFG yn cael ei "amddiffyn" wrth i awdurdodau lleol wneud toriadau gwariant yng nghyllidebau'r flwyddyn nesaf. Mae swyddogion yn awgrymu fod proffil DFGs yn gyffredinol uchel ymysg yr Aelodau etholedig, ond maent yn derbyn na ellir disgwyl diogelu unrhyw faes gwariant yn llwyr.

8. Dylai cyfrifiad y fformiwla Tai ar gyfer dyraniadau cyfalaf cyffredinol heb eu neilltuo gael ei adolygu i sicrhau ei fod yn adlewyrchu lefelau anabledd yn lleol a'r galw gwirioneddol am DFGs

Nid yw'r argymhelliad hwn wedi symud ymlaen. Nid yw'r fformiwla tai ar gyfer dyraniadau cyfalaf cyffredinol heb eu neilltuo yn adlewyrchu lefelau anabledd neu'r galw am DFGs.

Darperir dyraniadau cyfalaf blynyddol i awdurdodau lleol drwy'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol. Mae'n cynnwys swm tybiannol i gwmpasu tai, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol personol, trafndiaeth, gwasanaethau amgylcheddol lleol, a gwasanaethau cyfraith a threfn a gwasanaethau amddiffynnol. Nid yw'r symiau hyn wedi'u neilltuo at ddibenion penodol, ar lefel Cymru gyfan nac ar lefel awdurdod lleol. Mae pob awdurdod unigol yn gyfrifol am benderfynu pa gyfalaf i'w neilltuo i'w neilltuo i bob gwasanaeth unigol, gan gynnwys grantiau cyfleusterau i'r anabl.

Gallai awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio derbyniadau cyfalaf, benthyca darbodus (yn erbyn ffrwd incwm yn y dyfodol) a chyfraniadau refeniw i ariannu gwariant cyfalaf, er hynny, yn achos DFGs nid oes ffrwd incwm arwyddocaol i'w fenthg yn ei erbyn. Efallai y bydd lefel uwch o dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol yn deillio o'r tâl cyfreithiol y gellir ei osod yn erbyn eiddo lle mae addasiadau sylweddol yn cael eu cynnal, os caiff yr eiddo eu gwerthu ar ôl hynny, ond mae hyn yn annhebygol o chwarae rhan amlwg mewn ariannu rhaglenni'r dyfodol. Bydd angen i awdurdodau lleol barhau i gydbwyso'r angen i ateb y galw am DFGs, sydd yn grant gorfodol, yn erbyn galwadau eraill ar eu rhaglenni cyfalaf.

Gwnaed yr argymhelliad hwn i geisio sicrhau bod arian digonol ar gael yn lleol i ateb y galw am DFGs. Fodd bynnag, gan nad yw'r arian wedi'i neilltuo, yr awdurdodau lleol sydd i benderfynu ar y gyfran i'w gwario ar DFGs. Canfu adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Hydref 2009 fod tua hanner o awdurdodau lleol wedi cynnal ymarferion i bennu'r angen cyffredinol am DFGs yn eu hardal. Gwelsom er bod llawer o awdurdodau lleol wedi gwneud hyn, roedd yn

seiliedig ar wybodaeth hanesyddol ac nid yn asesiad o angen yn ôl proffil y boblogaeth. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymddangos eu bod o'r farn nad oedd llawer o bwynt yn cyflawni ymarfer i bennu yr holl angen am DFGs os na allant ddiwallu'r angen hwn.

Nid oes un o'r awdurdodau lleol y siaradwyd â hwy wedi ceisio rhagamcanu yr holl angen am DFGs yn yr ardal a chysylltu hyn â'r gyllideb. Mae gan rai rhagamcanion tymor hwy ar waith yn seiliedig ar alw hanesyddol. Mae rhai wedi edrych ar ffactorau lleol sy'n effeithio ar y galw am DFGs, megis proffil oed, graddau salwch cyfyngus hirdymor, a phroffil y stoc. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi dadansoddi gwariant ac wedi mynd i'r afael â chostau o fathau penodol o addasiadau, neu wedi edrych ar atebion mwy cost-effeithiol. Mae un awdurdod wedi dadansoddi gwariant o'r gyllideb ofal gyda'r bwriad o ddefnyddio addasiadau i leihau neu ddileu'r angen am ofal.

Dadansoddwyd y gwariant presennol yn ôl pen y boblogaeth dros 65 oed (gan fod y rhan fwyaf o DFGs ar gyfer pobol hŷn). Dangosodd hyn amrywiaeth enfawr yn y gwariant, o £15 i £110. Mae clystyru o gwmpas £50 - £70. Mae hyn yn adlewyrchu gwariant cyfredol yn hytrach na'r angen cyffredinol.

Mae Tabl 6 yn defnyddio'r un wybodaeth wedi'i rhannu gan nifer y pensiynwyr â salwch cyfyngus hirdymor. Eto, mae amrywiaeth enfawr. Fodd bynnag, mae'r rhai sydd yn gwario'n uchel a gwario llai yn gyson ar draws y ddau dabl.

Gan ein bod eisoes wedi nodi bod y galw am wasanaeth yn fesur gwael ar gyfer yr angen yn gyffredinol (caiff hyn ei ddylanwadu gan ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymysg darpar gwsmeriaid a'r rheiny a allai gael eu cyfeirio at y gwasanaeth) mae rhesymwaith mewn cysylltu cyllideb â niferoedd o bobl hŷn a/neu bobl hŷn â salwch cyfyngus hirdymor. Er hynny, yn genedlaethol ac yng Nghymru mae tueddiad o symud i ffwrdd o gyllidebau wedi'i neilltuo. Gallai defnyddio fformiwla olygu bod mwy neu lai o arian ar gael i awdurdodau lleol unigol, ac nid oes sicrwydd y bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer DFGs.

Tabl 5 – Gwariant DFG yn ôl pen o'r boblogaeth dros 65

Awdurdod	Gwariant DFG 2009/10 £ miloedd	Poblogaeth 65 a throsodd	Gwariant y pen o'r boblogaeth dros 65+
Blaenau Gwent	944	12,415	76
Pen-y-Bont ar Ogwr	2,636	23,963	110
Caerffili	1,025	28,392	36
Caerdydd	4,266	44,341	96
Sir Gaerfyrddin	1,836	37,139	49
Ceredigion	1,063	15,952	67
Conwy	1,552	26,801	58
Sir Ddinbych	1,046	26,801	39
Sir y Fflint	2,747	25,806	106
Gwynedd	724	23,913	30
Merthyr Tudful	654	9,460	69

Sir Fynwy	524	18,025	29
Castell-nedd a Phort Talbot	1,180	25,648	46
Casnewydd	515	23,295	22
Sir Benfro	1,067	24,993	43
Powys	787	22,609	35
Rhondda Cynon Taf	3,135	39,511	79
Abertawe	2,907	42,107	69
Tor-faen	1,245	16,569	75
Bro Morgannwg	1,637	22,497	73
Wrecsam	347	22,609	15
Ynys Môn	687	14,708	47
Cyfartaledd Cymru	32,523	548,270	59

Tabl 6 – Gwariant DFG fesul pensiywr gyda salwch cyfyngus hirdymor

Awdurdod	Gwariant DFG 2009/10 £ miloedd	Nifer y pensiywr gyda salwch cyfyngus hirdymor	Gwariant fesul pensiywr gyda salwch cyfyngus hirdymor
Blaenau Gwent	944	7,922	119
Pen-y-Bont ar Ogwr	2,636	13,673	193
Caerffili	1,025	17,321	59
Caerdydd	4,266	24,925	171
Sir Gaerfyrddin	1,836	20,452	90
Ceredigion	1,063	6,930	153
Conwy	1,552	13,134	118
Sir Ddinbych	1,046	10,560	99
Sir y Fflint	2,747	12,231	225
Gwynedd	724	11,558	63
Merthyr Tudful	654	6,293	104
Sir Fynwy	524	7,863	67
Castell-nedd a Phort Talbot	1,180	16,730	70
Casnewydd	515	12,976	40
Sir Benfro	1,067	11,520	93
Powys	787	12,799	61
Rhondda Cynon Taf	3,135	25,707	122
Abertawe	2,907	24,912	117
Tor-faen	1,245	9,521	131
Bro Morgannwg	1,637	11,100	147
Wrecsam	347	12,071	29
Ynys Môn	687	6,727	102
Cyfartaledd Cymru	32,523	296,925	109

Dangosydd arall o'r angen cyffredinol am DFGs allai fod y lefel oedi wrth drosglwyddo gofal lle mae pobl yn disgwyl am le mewn cartref gofal. Byddai'r defnydd amserol o addasiadau, wedi'i gefnogi lle bo angen gan wasanaethau eraill, yn gallu osgoi'r angen i unigolyn fynd i gartref gofal, neu o leiaf yn eu galluogi i ddychwelyd adref tra'n aros am le. O Awst 2010, roedd 596 o bobl wedi profi oedi wrth drosglwyddo gofal, o'r rhain roedd 116 yn aros am le mewn cartref gofal. Roed yr ardaloedd lle roedd dros 10 o bobl yn aros am le mewn cartref gofal yn cynnwys Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Phowys. Byddai'n anodd dadlau bod y ddau gyntaf yn tanwario ar DFGs wrth ystyried y tablau uchod. Mae Powys ar ben isaf y raddfa gwario a gellid dadlau y gallai gwariant cynyddol ar DFGs helpu gydag oedi wrth drosglwyddo gofal, er yn amlwg nid oes gennym unrhyw wybodaeth am achosion unigol y tu ôl i'r ffigurau hynny ac a yw dychwelyd adref yn ymarferol iddynt hwy.

Mae rhywfaint o ddealltwriaeth o randdeiliaid allweddol yn y sector bod DFGs yn helpu i arbed arian ar gyfer gwasanaethau eraill, ond nid oes cyswllt rhwng y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer DFGs a'r arbedion a wnaed. Mae'n bosibl bod awdurdodau lleol eu hunain wedi bod yn araf yn gwneud yr achos ariannol ar gyfer DFGs. Mae'r ffigurau isod yn dod o amrywiaeth o

ffynonellau, gan gynnwys adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddull systemau gwyro Castell-nedd Port Talbot at DFGs a chyhoeddiadau amrywiol eraill yn Lloegr.

Tabl 7 – Costau DFGs v arbedion posibl i wasanaethau eraill

	Cost DFG £	Cost/arbedion i wasanaethau eraill £	Sylw
Torri clun	300 - 1,000	30,000	Cost DFG o lifft grisiau sylfaenol i gost amcangyfrifedig i GIG (Parrott, 2000, addaswyd i gostau 2009)
Oedi wrth drosglwyddo i ofal preswyl neu nyrso	18,000	108,000	Cost DFG i dalu am osod cawod mynediad lefel ac estyniad yn yr ystafell wely i wneud lle. Arbedion yn seiliedig ar oedi wrth drosglwyddo i ofal preswyl neu nyrso gan 4 blynedd;
Rhyddhau i fyw'n annibynnol o ofal preswyl	6,500	270,000	Cost DFG yn seiliedig ar ganfod eiddo mynediad lefel priodol ac addasiadau pellach. Arbedion yn seiliedig ar 10 mlynedd ddim angen gofal preswyl
Rhyddhau plentyn ag anabledd difrifol o'r ysbyty i ofal cartref	36,000	251,850	Uchafswm DFG. Arbedion yn seiliedig ar gost gofal ysbyty ar gyfer plentyn ag anabledd difrifol, ffigurau ODPM 2005 wedi'u haddasu i gostau 2009.
Lleihau'r angen am ofal cymdeithasol	10,000	20,000	Cost DFG yn seiliedig ar osod ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod. Arbedion i gyllideb gofal gan mai dim ond 1 person sydd angen mynychu'n ddyddiol, yn seiliedig ar 5 mlynedd.

Gall gofal preswyl gostio rhwng £17,304 a £36,280 bob blwyddyn yn dibynnu ar lefel y ddibyniaeth. Ar gyfer oedolyn ag anabledd difrifol, byddai'r gost hon yn codi i rhwng £38,186 a £68,986 (costau yn seiliedig ar ffigurau 2005 ODPM wedi'u haddasu i gostau 2009). At ddibenion y ffigurau uchod rydym wedi defnyddio cost o £27,000 y flwyddyn.

Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot astudiaeth o bobl yn mynd i ofal preswyl dros gyfnod o 5 mlynedd. Roedd 244 o bobl wedi'u cyfeirio'n flaenorol ar gyfer DFG. O'r rhain, roedd 85 wedi cael DFG, roedd 159 wedi rhoi'r gorau iddi neu heb barhau ag ef. Roedd y rheiny oedd â DFG ar gyfartaledd wedi mynd i ofal preswyl 4 blynedd yn hwyrach na'r rheiny na chafodd DFG. Felly pe byddai'r 159 nad oedd wedi parhau wedi derbyn DFG, byddai wedi costio £2m (yn seiliedig ar gostau cyfartalog) ond byddent wedi arbed £12 ar ofal preswyl. Gwnaethant hefyd ddadansoddi achosion lle roedd pobl wedi "rhoi'r gorau" i'r broses DFG. Roedd 135 o'r achosion hyn wedi mynd ymlaen i ofal cartref. Mae'n bosibl os na fyddai'r bobl hyn wedi rhoi'r gorau i'r broses DFG ni fyddai angen gofal cartref arnynt.

9. Dylai'r dyraniad ariannu o ganlyniad i'r fformiwla tai gadw'r cyflymder â'r cynnydd a ragwelir mewn galw am DFGs yn y dyfodol

Fel y nodwyd uchod, mae gwariant ar DFGs wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2005.

10. Er mwyn ategu'r argymhelliad i gael llwybr cyflym ar gyfer gwaith DFG yn costio hyd at £3000, mae angen ystyried ffynhonnell ariannu am waith o'r fath, a'r rhinweddau o ddefnyddio unrhyw gyllid ar gael o ganlyniad i adroddiad Wanless

Mae darlun cymysg yn bodoli o ran mân waith. Mae bron pob un o'r awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth wedi'i symleiddio ar gyfer addasiadau llai, er bod rhai o'r rhain yn dal i gael eu rhedeg drwy'r broses DFG, gan gynnwys prawf modd. Mae awdurdodau lleol eraill wedi mynd â nhw allan o'r broses DFG yn llwyr. Mae diffiniadau eraill a chyfyngiadau ariannol o ran beth yw ystyr mân waith.

Mae llai o amrywiaeth o ran ffynonellau ariannu. Mae'r rhain fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal â chyllidebau tai i gyflawni'r mân waith, er fel y mae rhai awdurdodau yn nodi mae'r holl beth yn dod o'r un gyllideb gyffredinol beth bynnag! Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau bellach â threfniadau ar waith i sicrhau bod landlordiaid tai cymdeithasol – p'un a yw'n awdurdod lleol neu'n gymdeithas dai – yn ariannu gwaith i'w heiddo, gan gynnwys mân waith.

Mae'n demtasiwn i argymhell y dylai anghysonderau o fath gael eu cysoni ac i un diffiniad gael ei greu ar gyfer Cymru gyfan ond nid oes unrhyw dystiolaeth real y byddai hyn yn arwain at well gwasanaethau neu well gwerth am arian.

Fodd bynnag, gellir dadlau y dylai pob awdurdod lleol bennu eu diffiniadau clir eu hunain o 3 math o addasiad, gyda thargedau ar wahân y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer cyflawni pob math o addasiad. Byddai'r rhain yn cynnwys:

- Mân waith hyd at derfyn ariannol y cytunwyd arnynt (gydag enghreifftiau o'r math o addasu a ragwelir). Dylai'r amserlen a bennwyd ar gyfer y rhain adleywrchu'r ffaith mai mân waith ydynt. Ni fyddai angen i OT fod yn gysylltiedig fel arfer yn yr achosion hyn.
- Addasiadau llwybr cyflym pan fydd cyfaint rhesymol o'r math o addasu ac mae'r awdurdod lleol yn gallu rhoi'r ceisiadau hyn ar lwybr cyflym; gallai hyn gynnwys lifftiau grisiau, lifftiau eraill, cawodydd mynediad lefel, gosod toiled/cyfleusterau ystafell ymolchi, a rampiau allanol (er gallai rhai o'r rhain gael trin fel mân waith). Dylai pob awdurdod lleol benderfynu pa addasiadau dylid eu cyflymu. Dylai'r amserlen a osodir ar gyfer addasiadau cyflym fod yn heriol, gan wneud defnydd o fanylebau safonol, rhestrau cyfraddau a chontractwyr a ffefrir. Ni fyddai angen i OT fod yn gysylltiedig pob tro yn yr achosion hyn.
- Addasiadau eraill a fyddai angen asesiadau OT llawn.

Cyflwynwyd y Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP) yn 2002. Yn adroddiad 2005 cyfeiriwyd at gyllid parhaus cynllun RRAP, sydd wedi'i hariannu'n flynyddol ers ei chyflwyno. Mae RRAP yn darparu cyllid ar gyfer rhai mathau o fân addasiadau, yn enwedig pan fydd y rhain yn atal rhag gorfod mynd i'r ystyby neu'n galluogi rhyddhau'n gynt o'r ystyby. Mae'r holl awdurdodau lleol wedi

nodi eu bod yn gwerthfawrogi cynllun RRAP ac yn credu ei fod yn gwneud cyfraniad defnyddiol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn ychwanegu'r cyllid RRAP neu ddarparu arian cyflenwol, sy'n awgrymu ei fod yn cael ei ystyried bod ganddo werth.

11. Dylai'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr gael ei ddefnyddio at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer tenantiaid cyngor. Dylai awdurdodau lleol gael eu hysbysu o'r newid hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (2005/6)

Mae'r holl awdurdodau y siaradwyd â hwy hyd yn hyn yn defnyddio MRA a/neu gyllidebau ymateb atgyweirio i ariannu addasiadau ar gyfer tenantiaid y cyngor. Er hynny, maent yn ymwybodol fod gan denantiaid y cyngor hawl gyfreithiol i hawlio DFG, a byddai'n rhaid iddynt brosesu'r cais os nad yw'r angen yn cael ei ddiwallu.

Newid arwyddocaol ers 2005 yw nifer yr awdurdodau sydd wedi trosglwyddo eu stoc, neu yn ystyried gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud bod rhaid i'r gymdeithas trosglwyddo stoc sicrhau bod ei chynllun busnes yn cynnwys adnoddau digonol i gynnal addasiadau a chymhorthion ar eu stoc.

H. Oedi

12. Dylai'r gwaith cymharol fanwl a'r gwaith meincnodi a wnaed o dan yr adolygiad hwn gael ei baratoi mewn adroddiad ar wahân a'i gyhoeddi i awdurdodau lleol a RSLs er mwyn annog rhannu'r arfer gorau o ran DFGs a gwasanaethau addasiadau.

Mae'r gwaith cymharol a'r meincnodi wedi'i ddatblygu drwy nifer o ffyrdd gwahanol, gan gynnwys Sefydliad Siartredig Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd - Panel Technegol Tai a Gofal a Thrwsio Cymru. Mae CLILC wedi cyhoeddi adroddiad ar arfer da yn 2009, ac mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi cyhoeddi canllaw arfer da ar nifer o elfennau penodol ynghylch addasiadau a chymhorthion.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r canllaw arfer da ond ymddangos nad yw'n cael ei ddefnyddio i raddau helaeth. Mae rhai awdurdodau o'r farn na fyddai rhywbeth sydd yn gweithio mewn man arall o reidrwydd yn gweithio yn eu hardal hwy, neu maent yn teimlo fod y canllaw arfer da wedi dyddio.

Mae cryn dipyn o rannu arfer da yn anffurfiol yn digwydd, er enghraifft mae nifer o awdurdodau wedi ymweld â Chastell-nedd a Phort Talbot i edrych ar ganlyniadau defnyddio addasiadau mewn dull system diwastraff. Mae lle i ragor o rannu arfer da.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi gosod DFGs o fewn gwasanaeth tai sector preifat siop un stop, waeth beth fo'r ddaliadaeth o le y cafon nhw eu cyfeirio. Felly er enghraifft, byddai unigolyn sy'n cysylltu am gyngor ynghylch DFGs hefyd yn cael eu cyfeirio am wybodaeth ynghylch defnyddio ynni a grant lle bo hynny'n addas. Mae'r holl swyddogion o fewn y gwasanaeth yn gynghorwyr ynni hyfforddedig. Gelwir swyddogion technegol sydd yn delio â DFGs yn "swyddogion gwella'r cartref" i adlewyrchu hyn; maent wedi hyfforddi mewn HHSRS, yn cynnwys adnabod peryglon a allai achosi llithro a baglu. Maent hefyd yn edrych af faterion megis a oes peiriannau canfod mwg.

Mae Castell-nedd a Phort Talbot wedi ail-ffurfweddu'r broses DFG; bellach mae'r cam cyntaf yn cynnwys ymweliad dechreuol ar y cyd oddi wrth yr OT a'r swyddog technegol, a'r swyddog sydd yn delio â'r prawf modd. Mae hyn yn gosod yr arbenigwyr ar flaen y gad. Defnyddir yr ymweliad i ganfod anghenion yr unigolyn, beth sydd bwysicaf iddynt ac archwilio'r posibilïadau mewn perthynas â'r rhain a'u ffordd o fyw. Mae'r OT yn mynd â chyfarpar gyda nhw a gallant adael unrhyw beth a allai fod o ddefnydd iddynt. Cyn yr ymweliad maent yn gwneud cymaint o waith paratoadol â phosib gan wirio gofrestrfa'r tir am fanylion perchnogaeth, a gwirio budd-daliadau a delir ac ati. Ar ôl yr ymweliad cychwynnol bydd y swyddog technegol yn aros gyda'r un achos o'r dechrau i'r diwedd fel mai dim ond un person sydd yn rhaid i'r cwsmer ddelio ag ef.

Mae gan Wynedd grŵp addasiadau ar y cyd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tîm OT, y tîm technegol/grantiau, Gofal a Thrwsio a chymdeithas LSVT. Yn bennaf mae'r grŵp yn edrych ar faterion polisi a byddant yn adolygu achosion unigol lle bo hynny yn addas.

Mae Torfaen yn rhedeg eu gwasanaeth DFG drwy dîm aml-ddisblygaeth sy'n cynnwys OT's, syrfewyr adeiladau, swyddogion cyswllt grantiau a gweithwyr cymdeithasol. Mae hyn yn eu galluogi i gynnig dewis o wasanaethau integredig o atebion a'r gallu i ystyried y goblygiadau ar y gwasanaeth gofal cartref wrth ystyried addasiadau.

13. Dylai cyfres o seminarau yn cyflwyno canlyniadau:

- **adolygiad DFG Cymru**
- **cyfnod 2 meincnodi CLILC ac adroddiad arfer da (pan gaiff ei gwblhau)**
- **canllaw OPDM "Delivering Adaptations, a Good Practice Guide"**

gael eu trefnu mewn partneriaeth â chyrrff megis CIH Cymru, WFHA a Gofal a Thrwsio Cymru.

Gweler y sylwadau uchod.

14. Dylai llwybr carlam ar wahân ar gyfer gwaith DFG yn costio hyd at £3000 gael ei gyflwyno fel y manylwyd eisoes

Gweler y sylwadau o dan argymhelliad 10.

15. Dylid cyflwyno PI statudol sydd yn targedu a mesur y broses DFG a wnaed yn ogystal ag addasiadau o gost sylweddol o fewn pob daliadaeth, o'r cyswllt cyntaf â'r awdurdod lleol hyd at gwblhau'r gwaith.

Cafodd PI ei gyflwyno ar ôl cyhoeddi adroddiad 2005 ag yn fwy diweddar mae hwn wedi dod yn PI statudol a gaiff ei archwilio. Mae bron pob awdurdod yn credu bod cyflwyno'r PI wedi bod yn arwyddocaol. Fe gododd hyn broffil gwaith addasiadau o fewn yr awdurdodau, ac i lawer roedd yn ffactor pwysig wrth sicrhau rhagor o adnoddau yn fewnol.

Fodd bynnag, mae cryn amheuaeth gan y mwyafrif o awdurdodau lleol ynglŷn â sut mae'r PI yn cael ei fesur; mae pawb yn credu eu bod yn eu mesur yn gywir ond mae eraill yn anghytuno! Mae hyn er gwaethaf cyfarwyddiadau manwl sy'n cyd-fynd â'r PI. Yn ddiweddar daeth y PI yn fesurydd statudol ac felly caiff ei archwilio, fe ddylai hyn ddileu peth o'r amheuaeth sy'n bodoli.

Mae yno farn gref bod mesur cyflymder y gwasanaeth addasu yn unig yn diystyru elfennau megis bodlonrwydd cwsmeriaid, ac a yw'r addasiadau wedi llwyddo i alluogi'r unigolyn i aros yn annibynnol. Mae yno farn bod mesur cyflymder y gwasanaeth yn bwysig pan fod perfformiad yn wael ond gweler fod perfformiad wedi gwella'n arwyddocaol ledled Cymru ers 2005. Mae rhai awdurdodau wedi nodi mai cwsmeriaid sy'n gofyn am yr oedi ar adegau fel bod y gwaith yn gallu cael ei gwblhau ar amseroedd mwy cyfleus, neu i gyd-fynd â thriniaeth sy'n mynd rhagddi, neu ddirywiad mewn salwch hirdymor.

Rydym yn deall bod PI's wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod y PI ar gyfer DFGs wedi eu cadarnhau, gydag amod ychwanegol y dylai'r cofnodi gael ei rannu

rhwng addasiadau a wneir ar gyfer plant ag anabledd a rhai ar gyfer oedolion ag anabledd. Mae hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth gan awdurdodau lleol bod addasiadau ar gyfer plant ag anabledd yn cymryd mwy o amser ac yn gallu bod yn fwy cymhleth na'r rhai ar gyfer oedolion.

Nid oes diben argymell newidiadau i'r PI neu PI ychwanegol. Er hynny, mae'r argymhelliad uchod y dylai gwaith gael ei ddiffinio mewn i 3 chategori yn arwain yn rhesymegol at yr argymhelliad y dylai bob un o'r tri gael eu monitro ar wahân. Dylai'r PI cenedlaethol presennol aros fel y mae ac fe ddylai'r awdurdodau lleol fonitro'r tri chategori ar wahân a rhannu'r wybodaeth hon ymysg ei gilydd fel rhan o waith meincnodi.

I. Plant Anabl

16. Dylai'r prawf modd ar gyfer DFG plant dibynnol gael ei ddiddymu, gyda'r Cynulliad yn ariannu'r gost ychwanegol

Mae'r awgrym hwn wedi'i weithredu, nid oes yn rhaid i deuluoedd â phlentyn anabl dibynnol gwblhau y prawf modd bellach. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn adrodd nad yw hyn wedi cael llawer o effaith. Efallai eu bod wedi disgwyl rhuthr o geisiadau ond nid dyma'r achos. Mae awdurdodau eraill yn cydnabod nad oes ruthr o geisiadau wedi digwydd, ond ei bod wedi bod yn ymdrech i gynnwys costau, gan fod addasiadau ar gyfer plant anabl yn dueddol o fod yn fwy sylweddol ac felly'n ddrutach. Gwnaeth un neu ddau o awdurdodau nodi bod cynnydd yn y galw, ond nid oeddynt yn teimlo bod hyn wedi'i achosi gan gael gwared ar y broses o glustnodi, ond yn hytrach yn adlewyrchiad o'r cynnydd cyffredinol yn y galw am addasiadau ar gyfer plant ag anabledd. Doedd dim awdurdod yn teimlo bod teuluoedd yn ymdrin ag addasiadau mewn ffordd wahanol oherwydd nad oedd rhaid iddynt gyfrannu.

17. Dylai'r casgliadau o'r adolygiad eang ar y prawf modd DFG a wnaed gan ODPM yn Lloegr gael eu hystyried yng Nghymru ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Mae'r prawf modd wedi aros mewn grym yn Lloegr. Cafodd yr adolygiad y cyfeiriwyd ato yn adroddiad 2005 ei gomisiynu gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, yr Adran Iechyd, a'r Adran Addysg a Sgiliau, ac fe'i gwnaethpwyd gan Brifysgol Bryste. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai'r prawf modd, neu'r prawf adnoddau, gael ei adolygu a'i sefydlu ar egwyddorion Tâl Tecach ar gyfer Gwasanaethau Gofal, ond nid yw hyn wedi cael ei wireddu.

Rydym wedi trafod gyda nifer o awdurdodau ynglŷn â'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y prawf modd, lle yn aml y canlyniad yw dim cyfraniad neu gyfraniadau bychan iawn. Mae nifer o'r awdurdodau yn gofyn a yw'r prawf modd yn werth yr ymdrech o ystyried y swm bychan o gyfraniadau gaiff ei gasglu. Mewn un awdurdod, bu'n bosibl astudio'r broses o brofi modd mewn cryn fanylder; mae'n broses gymhleth y gellir ei symleiddio. Mae'r prawf modd yn profi'n rhwystr i rai cartrefi nad ydynt am rannu eu gwybodaeth ariannol gyda'r awdurdod lleol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r prawf modd i wneud yn siŵr nad yw'r cartref yn hawlio budd-dal pan nad oes hawl ganddynt i'w gael.

Dylai'r prawf modd gael ei adolygu er mwyn ei symleiddio; er hynny byddai'n briodol ceisio symud at yr egwyddorion "mynediad teg at wasanaethau gofal", gan fod hyn yn adlewyrchiad tecach o wir gost tai. Er hynny, y prif nod ddylai fod yw symleiddio'r prawf.

Cydnabyddir nad yw hwn yn fater wedi'i ddatganoli ac felly byddai symleiddio'r prawf modd yn fater i'w drafod rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gan ystyried graddfa'r newidiadau arfaethedig ar faterion budd-daliadau, efallai nad yw hyn yn flaenoriaeth wleidyddol. Er hynny, mae'n bosib y bydd cyfleoedd i symleiddio'r prawf modd fel rhan o adolygiad ehangach ynghylch budd-daliadau gan fod y llywodraeth bresennol wedi ymrwymo i hynny.

J. Tenantiaid y Cyngor

18. Dylai fframwaith gael ei gosod a fyddai'n gofyn am ragor o unffurfiaeth ar ddarparu addasiadau ar gyfer tenantiaid y cyngor. Dylai hyn gynnwys:

- **Diffiniad clir o beth gaiff ei ystyried yn fân addasiadau (y rhai sy'n costio llai na £1000), a ffordd gyffredin anfiwrocratig o ddarparu'r rhain, y tu allan i'r system DFG**
- **NAWPI i gwmpasu'r amserlenni ar gyfer darparu addasiadau mwy i denantiaid y cyngor**

Mae'r holl awdurdodau lleol bellach yn darparu addasiadau ar gyfer tenantiaid y cyngor y tu allan i system DFG, er mae rhai wedi nodi bod gan denantiaid y cyngor hawl gyfreithiol i gael DFG a gallant arfer hynny os y mynnant. Yn bron pob un o'r awdurdodau, mae'r addasiadau ar gyfer tenantiaid cyngor yn cael ei dalu amdano allan o gyllideb ar wahân sydd wedi'i chlustnodi o fewn y gyllideb atgyweirio. Mae hyn yn cynnwys addasiadau mwy a llai. Mae amrywiaeth eang o drefniadau gwahanol mewn grym i gwblhau'r gwaith. Ar y cyfan, mae'r tîm OT yn cynnal y gwaith asesu a chyfeirio, er nid yw rhai awdurdodau yn defnyddio'r OT ar gyfer gwaith llai. Mewn rhai achosion y tîm technegol sydd yn gweinyddu'r gwaith ac yna gosod y tâl ar y gyllideb berthnasol, mewn achosion eraill mae'r staff atgyweirio yn trefnu i'r gwaith gael ei wneud.

Newid arwyddocaol ers adroddiad 2005 yw nifer y trosglwyddiadau stoc yng Nghymru, gyda gwahanol drefniadau yn cael eu gosod i ariannu a threfnu addasiadau.

Mae PI i fesur cyflymder addasiadau ar gyfer tenantiaid cyngor wedi bod mewn grym ers 2006/7. Nid yw'r awdurdodau sydd wedi cwblhau trosglwyddo stoc yn darparu'r wybodaeth hon. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2008/9 yn dangos darlun cymysg, gyda dim ond tua hanner yr awdurdodau wedi llwyddo i wneud gwelliannau, er mae'r cyfartaledd ar gyfer Cymru wedi gostwng yn raddol dros y tair blynedd. Mae tri awdurdod yn cwblhau addasiadau ar gyfer tenantiaid y cyngor o fewn cyfartaledd o lai na 100 diwrnod, 3 arall rhwng 100 a 2000 diwrnod a 5 rhwng 200 a 300 diwrnod. Mae 2 ohonynt â chyfartaledd dros 300 diwrnod.

19. Dylai arfer da tra'n darparu gwasanaethau addasiadau ar gyfer tenantiaid gael ei rannu drwy'r dulliau lledaenu a argymhellir yn Adran C.

Gweler sylwadau o dan argymhelliad 12 uchod.

20. Dylai polisi arweiniol clir a chanllawiau gael eu rhoi i awdurdodau lleol sy'n gofyn iddynt gynnwys yn eu cynlluniau busnes a chytundebau trosglwyddo, gostau holl addasiadau mwy a llai er mwyn uwchraddio eu stoc i lefel y WHQS

Mae'r polisi arweiniol clir a'r canllawiau wedi'u gosod o fewn y cyngor a roddir i awdurdodau lleol wrth baratoi cynlluniau busnes, boed hynny ar gyfer cadw neu drosglwyddo stoc. Gyda throsglwyddo stoc, roedd ychydig o bryder gan yr awdurdodau lleol fod y cynlluniau busnes ar gyfer trosglwyddiadau cynnar wedi tan amcangyfrif yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer addasiadau yn y dyfodol, ond ymdriniwyd â hyn mewn cynlluniau busnes mwy diweddar.

K. Tenantiaid RSL

21. Dylai costau addasiadau mwy RSL gael eu cyflawni gan ddefnyddio cyllid PAG, o SHG

Ers 2005, mae cynnydd arwyddocaol wedi bod yn holl gostau PAG, o lai na £1.5m yn 2004/5 i dros £8m yn 2008/9. Er hynny, mae ffigurau'r Cynulliad yn dangos eu bod yn anghyffredin i gymdeithasau di-ddatlygu i hawlio PAG. Felly, mewn gwirionedd, nid yw holl gostau addasiadau mwy yn cael eu hariannu drwy PAG, a chafodd hyn ei gadarnhau yn ein cyfweiliadau â'r cymdeithasau tai.

Mae'r awdurdodau lleol yn awyddus iawn i sicrhau bod cymdeithasau tai ddim yn dod atynt i ariannu'r addasiadau, a bydd y mwyafrif y siaradwyd â nhw yn ceisio dwyn perswâd ar ymgeiswyr sydd yn tenantiaid cymdeithas tai i siarad â'u landlord yn gyntaf.

Arweiniodd cost gynyddol PAG at gyhoeddi papur ymgynghorol yn 2009 a gynigiodd gosod uchafswm ar PAG and dosbarthu mwyafrif yr arian i'r cymdeithasau oedd yn datblygu, gan ddefnyddio fformiwla yn seiliedig ar faint y stoc. Byddai cymdeithasau nad oeddynt yn datblygu yn gallu hawlio PAG ar sail fesul achos o'r gronfa wrth gefn.

22. Fe ddylai mân addasiadau sy'n costio llai na £1000 fod yn rhan o gyfrifoldeb yr RSL ac felly ni ddylent fod yn gymwys ar gyfer PAG neu DFG

Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn credu bod cymdeithasau tai yn ariannu addasiadau llai allan o'u cyllideb eu hunain, fe adlewyrchir hyn gan y nifer fechan o geisiadau gan gymdeithasau i gefnogi'r math hwn o waith. Mae cymdeithasau wedi cadarnhau eu bod yn talu am fân addasiadau (ac mewn rhai achosion, addasiadau mwy) o'u cyllidebau eu hunain.

Nid yw addasiadau i eiddo cymdeithasau tai yn cael eu mesur drwy PI a gyhoeddir, felly nid yw'n bosib cymharu'r math o wasanaeth mae tenantiaid cymdeithasau tai yn ei dderbyn yn erbyn mathau eraill o denantiaeth. Cafwyd cynnig y dylai PI gael ei gyflwyno pan gaiff y gweithdrefnau PAG diwygiedig eu rhoi ar waith.

Mae rhai awdurdodau wedi lleisio pryder nad yw cymdeithasau tai o dan yr un pwysau i ennill gwerth am arian, a bod gweithio yn annibynnol yn llai cost-effeithiol gan nad ydynt yn defnyddio arbenigedd a phrofiad yr awdurdod. Er enghraifft, mae gan nifer o awdurdodau lleol gytundebau mewn grym i osod lifftiau grisiau lle mae prisiau yn is oherwydd eu bod yn cael eu prynu mewn niferoedd uwch, ond efallai bod y cymdeithasau tai yn mynd at yr un cyflenwr ond yn gorfod talu mwy. Mae gan y rhan fwyaf o gymdeithasau tai yng Nghymru drefniadau caffael cadarn mewn grym ar gyfer cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac sy'n ymatebol, rhai ohonynt drwy drefniadau caffael ar y cyd. Mae rhai hefyd wedi adolygu'r broses gaffael ar gyfer gwasanaethau addasiadau ac maent yn credu bod trefniadau ar waith i ddarparu gwerth am arian tra bod eraill yn awgrymu bod hwn yn faes lle gellir gwneud llawer mwy.

Yn ein gwaith dim ond nifer fechan o gymdeithasau tai y siaradwyd â hwy felly ni allwn honni bod y farn hon yn gynrychioladol, ond mae'n amlwg ei fod yn faes y gellir ymchwilio iddo yn bellach.

23. Dylai cynllun PAG gael ei archwilio a'i egluro o ran cymhwysedd, costau isafswm ac uchafswm, gwaith sy'n gymwys, a gwaith papur sydd angen ei gyflwyno. Fe ddylai PAG gyd-fynd â'r ddarpariaeth o dan y system DFG, lle bo hynny'n bosibl

Ers adroddiad 2005 mae gweinyddu PAG wedi'i symleiddio ar gyfer rhai mathau o waith, ac mi fydd y drefn newydd arfaethedig yn adeiladu ar hyn i leihau oedi gweinyddol. P'un a oes dyraniad yn bodoli neu beidio, bydd taliadau yn cael eu gwneud ar ôl cwblhau'r gwaith a ni fydd angen cymeradwyo pob un achos. Mae'r Cynulliad yn bwriadu cynnig rhestr gynhwysfawr o waith sydd yn gymwys a gwaith sydd ddim yn gymwys cyn i'r system newydd gael ei chyflwyno. Caiff lleiafswm ei osod lle bydd disgwyl i gymdeithasau ariannu unrhyw waith o dan ryw derfyn penodol. Nid yw'r terfyn wedi'i gytuno arno er bod £500 yn cael ei awgrymu yn yr ymgynghoriad. Caiff uchafswm ei osod fel y bydd yn rhaid i unrhyw waith dros £36,000 gael ei ariannu o'r gyllideb wrth gefn, er nid yw'n eglur a fydd yn rhaid i'r rhain cael eu cymeradwyo fesul achos.

24. Dylai cynllun PAG cael ei hyrwyddo yn agored ymysg yr holl RSLs

Mae'r holl gymdeithasau y siaradwyd â hwy yn ymwybodol o PAG.

25. Er mwyn gallu cyflymu gwaith addasu dylai ceisiadau ôl-weithredol ar gyfer PAG gael eu caniatáu yn amodol ar wiriadau a balansau clir i sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn cydymffurfio'n llawn â gofynion PAG

Mae gweithdrefnau wedi'u symleiddio gan gynnwys ceisiadau ôl-weithredol wedi'u cyflwyno ar gyfer PAG, er fel y nodwyd uchod roedd y rhain yn bennaf wedi cymryd mantais o'r cymdeithasau sy'n datblygu. Bydd y gweithdrefnau newydd yn gweithio ar sail ceisiadau ôl-weithredol.

26. Dylid ystyried gweithredu rhestr cyfraddau ganolog ar gyfer gwaith PAG

Nid yw'r argymhelliad hwn wedi cael ei ddwyn ymlaen.

Yn gyffredinol, ni chafodd yr argymhelliad ei gefnogi gan y cymdeithasau tai y siaradwyd â hwy. Teimlwyd y byddai'n feichus, yn anodd i'w weinyddu, ac o bosibl na fydd yn cyflawni'r canlyniadau a ddisgwylir. Roedd mwy o gefnogaeth i'r syniad o brynu nifer fawr o gyfarpar, er roedd rhai cymdeithasau yn teimlo mai dim ond cyfran fechan o'u haddasiadau fyddai'n cael eu defnyddio fel pryniannau "oddi ar y silff" yn hytrach nag atebion wedi'u teilwra'n benodol. Nid oedd y rhan fwyaf o gymdeithasau yn rhy hoff o'r syniad o atebion canolog gan awgrymu y gellid datblygu'r argymhelliad hwn wedyn drwy drefniadau caffael a rennir sy'n bodoli.

27. Dylai gwybodaeth am lwybrau sydd ar gael ar gyfer addasiadau ar gyfer tenantiaid RSL gael eu cyhoeddi, fel rhan o'r wybodaeth/deunydd cyhoeddusrwydd cyffredinol a gynigir rywle arall yn yr adroddiad hwn.

Gweler y sylw yn argymhelliad 2.

L. Cofrestrau Tai a Addaswyd ar gyfer Tai Cymdeithasol

28. Dylai'r cynlluniau a'r systemau gorau gael eu haildrodd ledled Cymru. Gellid hwyluso hyn drwy rannu gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r adolygiad hwn a/neu gyfres o seminarau arfer da ar gyfer ALLau a RSL, wedi'u hwyluso gan y Cynulliad a sefydliadau fel WFHA and CIH

Mae gan yr holl awdurdodau y siaradwyd â hwy ryw fath o gofrestr tai wedi'u haddasu. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gweithio ar sail categoreiddio eiddo yn ôl graddfa'r addasu a wneir, a chategoreiddio anghenion y person anabl er mwyn gallu cyfateb y ddau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweithio o fewn eu ffiniau eu hunain yn hunain, a ddim yn gweld llawer o fantais mewn cynlluniau isranbarthol neu ranbarthol. Ar y llaw arall, mae rhai awdurdodau wedi mynegi diddordeb mewn trafodaeth bellach ar y categorïau a ddefnyddir, gan weld manteision o gael dull safonol ledled Cymru. I eraill, byddai hyn yn creu peth anhawster gan eu bod eisoes wedi casglu swm sylweddol o wybodaeth am eu heiddo eu hunain o dan y categorïau y cytunwyd arnynt yn lleol.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi cael llwyddiant sylweddol wrth gyfateb tenantiaid i eiddo wedi'u haddasu. Rhoddir dwy enghraifft isod. Cydnabyddir bod cofrestrau tai wedi'u haddasu (neu hygyrch) yn gallu arbed arian i'r awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion gallant gynnig ateb cyflymach na gorfod cael addasiadau pellach. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau yn credu ei bod ond yn werth cyfateb eiddo sydd wedi cael addasiadau sylweddol, sy'n nifer gymharol fechan o eiddo, ond mae'r buddiannau yn dal i fod yn sylweddol.

Mae angen i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gydweithio i ddatblygu a rhedeg cofrestrau ar y cyd. Mae hyn yn galluogi'r ffordd orau o aildefnyddio addasiadau presennol. Mae rhai awdurdodau yn feirniadol o gymdeithasau tai sydd yn eu barn nhw yn gwneud llai o ymdrech i aildefnyddio addasiadau. Mae cymdeithasau tai hefyd yn nodi anawsterau wrth gael enwebiadau priodol gan yr awdurdod lleol, ac yn benodol, oedi wrth aros i OT fod ar gael i benderfynu a yw eiddo yn addas ai peidio. Fodd bynnag, mae'n glir o'r rheiny sydd wedi bod yn llwyddiannus bod y problemau hyn yn rhai y gellir eu goresgyn.

Mae llawer o awdurdodau â diddordeb mewn ymestyn y gofrestr o eiddo wedi'u haddasu i gynnwys tai a rentir yn breifat a thai perchen-feddianydd. Mae un neu ddau awdurdod eisoes wedi cael peth llwyddiant wrth gael landlordiaid i weithio gyda nhw.

29. Dylai Awdurdodau Lleol gael eu hatgoffa o fuddiannau cofrestrau tai wedi'u haddasu a chynlluniau cyfateb o ran eu stoc tai eu hunain, a dylai fod gofyn iddynt gynnwys eu cynlluniau o fewn eu strategaeth tai lleol a strategaeth adnewyddu'r sector preifat

Gweler y sylwadau am fuddiannau cofrestrau tai hygyrch.

Er nad yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyfeirio at gofrestrau tai hygyrch yn eu strategaeth tai lleol, mae'r argymhellion yn cyfeirio at wneud defnydd gwell o stoc tai cymdeithasol presennol. Fel y nodwyd uchod, mae llawer o awdurdodau lleol bellach â

diddordeb mewn ymestyn y gofrestr i gynnwys tai a rentir yn breifat a thai perchen-feddiannydd. Mae hyn wedi codi mater newydd o ran safonau dylunio llety newydd. Roedd nifer o OTs y siaradwyd â nhw fel rhan o'r gwaith hwn yn feirniadol o'r safonau dylunio ar gyfer tai hygyrch newydd ac yn teimlo y dylai'r awdurdodau lleol adolygu'r rhain i sicrhau bod tai o'r fath wir yn gallu diwallu anghenion cynyddol gymhleth rhai pobl anabl.

Mae Cardiff Accessible Homes wedi arbed tua £2m drwy alluogi aildddefnyddio addasiadau sydd wedi'u gwneud.

Mae Conwy yn amcangyfrif bod eu cofrestr tai wedi'u haddasu yn arbed tua £150,000 y flwyddyn iddynt drwy gyfateb pobl sydd angen tŷ wedi'i addasu gydag eiddo gwag.

Mae cymdeithas dai Coastal yn cynnal cofrestr eiddo hygyrch sy'n cynnwys yr holl stoc tai cymdeithasol yn Abertawe. Bydd eiddo sydd wedi cael addasiadau mawr yn cael eu cyfeirio at y cynllun a bydd Coastal yn ceisio cyfateb yr eiddo â rhywun sydd angen yr addasiadau hynny.

Mae Cyngor Bwrdeistref Caerffili yn arbennig o ragweithiol wrth annog pobl i symud pan fydd yr eiddo yn anaddas ar gyfer yr addasiadau sydd eu hangen arnynt. Maent yn cynnig grant "adleoli" ar gyfer y rheiny sy'n y sector preifat sy'n symud, a byddant yn ymweld a'u hannog i feddwl am opsiynau eraill. Mae ganddynt drefniadau adeiladu at archeb i rai teuluoedd, mewn partneriaeth â RSLs, er bod yr amser ar gyfer hyn yn golygu eu bod yn fwy ymarferol i deuluoedd â phlenty'n anabl, er eu bod hefyd wedi gwneud y rhain ar gyfer oedolion. Byddant yn ystyried opsiwn pob daliadaeth gan gynnig cymorth i'r rheiny sy'n symud o fewn neu i'r sector perchen-feddiannydd, yn ogystal â helpu'r rheiny sy'n rhentu'n breifat i symud i dai cymdeithasol.

M. Mân Addasiadau

30. Dylai mân addasiadau gael eu diffinio'n glir. Awgrymir y dylai'r diffiniad gysylltu â'r gost, a bod pob addasiad sy'n costio llai na £1000 yn cael ei ystyried yn fân addasiad.

Nid oes unrhyw ddiffiniad cytûn ar gyfer mân waith. I gymdeithasau tai, mae cynigion PAS yn defnyddio £500 ond mae hyn yn amodol ar ymgynghoriad. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o gostau o £800 i £3,000.

Fel y nodwyd uchod mae'n demtasiwn i argymhell defnyddio diffiniadau cyffredin, ond nid oes unrhyw dystiolaeth benodol o ran y manteision a fyddai'n deillio o hynny. Er enghraifft, mae'r awdurdod lleol sy'n defnyddio £800 fel y terfyn ar gyfer mân waith wedi ystyried cynyddu hyn i £1,000 ond yn credu yn hytrach na'u galluogi i gynnwys mwy o addasiadau yn y categori mân waith, byddai costau addasiadau yn syml yn codi i'r lefel newydd.

Rydym wedi argymhell yn 10 uchod i gategoreiddio ar gyfer gwahanol fathau o addasu.

31. Dylid hyrwyddo darparu mân addasiadau (o dan £1000) drwy ddulliau llai biwrocraidd

Mae'r gan yr holl awdurdodau y siaradwyd â nhw wahanol weithdrefnau ar waith ar gyfer mân addasiadau, ar gyfer y rhan fwyaf mae hyn yn golygu delio â nhw y tu allan i'r broses DFG er mae un neu ddau o awdurdodau yn rhoi mân addasiadau drwy broses DFG.

Mae'r data ar gyfer PRS006 (gwaith addasiadau cost isel lle na ddefnyddir DFG) yn dangos bod yr addasiadau hyn yn cael eu gwneud yn llawer cynt: yn 2009/10 roeddent yn cymryd cyfartaledd o 27 diwrnod o gymharu â 349 diwrnod ar gyfer gwaith DFG. Mae'r cyfartaledd yn cwmpasu ystod eang iawn o 10 diwrnod i 167 diwrnod.

Tabl 8 - Perfformiad yn erbyn PRS006 - nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i ddarparu gwaith addasu mewn anheddau preifat lle na ddefnyddiwyd proses DFG

	2006/7	2007/8	2008/9	2009/10	Gwella dros gyfnod o 2006/7 i 2009/10?	Nifer y diwrnodau Gwelliant
Blaenau Gwent	9	8	8	58	-	-
Pen-y-bont ar Ogwr	-	-	76	75	-	-
Caerffili	101	58	22	54	I	47
Caerdydd	113	108	62	84	I	29
Sir Gaerfyrddin	23	12	21	10	I	13-
Ceredigion	200	150	140	70	I	130
Conwy	461	51	43	38	I	423
Sir Ddinbych	179	99	55	69	I	110
Sir y Fflint	153	184	127	102	I	51
Gwynedd	72	81	82	134	N	-
Merthyr Tudful	8	66	75	37	N	-
Sir Fynwy	58	10	11	-	-	-

Castell-nedd Porth Talbot	82	98	-	13	I	69
Casnewydd	29	23	25	19	I	10
Sir Benfro	432	453	359	167	I	265
Powys	147	109	180	-	N	-
Rhondda Cynon Taf	121	107	104	89	I	32
Abertawe	115	140	109	97	I	18
Tor-faen	4	5	-	17	-	-
Bro Morgannwg	66	21	26	16	I	50
Wrecsam	-	142	150	155	N	-
Ynys Môn	28	151	28	34	N	-
Cyfartaledd Cymru	84.71	80.8	68.98	57.32	I	27.39

Er bod perfformiad yn amrywio'n sylweddol yn erbyn y dangosydd hwn, mae pob awdurdod yn delio â'r mân waith y tu allan i'r system yn llawer cynt nag y maent yn delio â DFGs, fel y dangosir yn Nhabl 9 isod.

Tabl 9 - cymharu perfformiad rhwng amseroedd prosesu DFG ac amseroedd i gwblhau addasiadau sector preifat y tu allan i'r broses DFG (ffigrau 2009/10)

	PRS 002	PRS 006
Blaenau Gwent	362	58
Pen-y-bont ar Ogwr	318	75
Caerffili	397	54
Caerdydd	189	84
Sir Gaer	319	10
Ceredigion	533	70
Conwy	237	38
Sir Ddinbych	381	69
Sir y Fflint	347	102
Gwynedd	359	134
Merthyr Tudful	239	37
Sir Fynwy	260	-
Castell-nedd Port Talbot	692	13
Casnewydd	462	19
Sir Benfro	550	167
Powys	-	-
Rhondda Cynon Taf	253	89
Abertawe	370	97
Tor-faen	273	17
Bro Morgannwg	802	16
Wrecsam	387	155
Ynys Môn	387	34
Cyfartaledd Cymru	349.04	57.32

Mae gan Ferthyr Tudful gynllun ar waith sy'n galluogi pobl i fenthyg lifftiau grisiau wedi'u hailgylchu am gyfnod o amser. Gellir eu gosod o fewn 48 awr. Cynhelir y gwaith y tu allan i'r broses DFG heb brawf modd. Gellir dychwelyd y lifftiau grisiau pan na fydd eu hangen mwyach.

32. Dylai ariannu mân addasiadau sy'n costio £1000 neu lai fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat, RSLs ar gyfer tenantiaid RSL ac Adrannau Tai ar gyfer tenantiaid Tai'r Cyngor, a dylid archwilio'r dull ar gyfer y ffordd orau o gyflawni hyn yn fanwl

Ar gyfer y rhan fwyaf, mae hyn wedi digwydd, gyda'r adrannau tai yn ariannu gwaith ar gyfer tenantiaid y cyngor a chymdeithasau tai yn ariannu mân waith ac mewn rhai achosion yn gwneud cais am PAG. Mewn rhai awdurdodau lleol, bydd gwasanaethau gofal oedolion yn ariannu mân addasiadau ar gyfer perchen-feddianwyr a thenantiaid preifat. Mae rhai enghreifftiau da o gydweithio i'w gweld gyda gofal oedolion, yn enwedig mewn cysylltiad â'r rhyngwyneb rhwng anghenion gofal ac addasiadau, a gyda gwasanaethau tele-fal, ac rydym yn amlinellu'r rhain yn ein hadroddiad terfynol.

33. Dylai'r defnydd o staff cymwys nad ydynt yn OT gael eu hannog a'u hyrwyddo ar gyfer mân addasiadau

Mae'r darlun yn eithaf cymysg o hyd. Mae tua hanner yr awdurdodau y siaradwyd â nhw hyd yma yn defnyddio cynorthwyr OT neu staff technegol ar gyfer mân addasiadau, mae eraill yn awyddus i ddefnyddio OTs ar gyfer mân waith gan eu bod yn teimlo bod asesiad llawn yn sylfaen gwell ar gyfer asesu angen hirdymor.

Credir mai Cyngor Bwrdeistref Caerffili yw'r cyntaf yng Nghymru i gyflogi OT o fewn yr adran dai. Cafodd yr OT ei gyflogi'n wreiddiol i sicrhau cyfathrebu da rhwng yr adran dai a'r adran gwasanaethau cymdeithasol; mae cyfathrebu erbyn hyn yn dda iawn ac mae'r angen am y rôl hon bellach wedi diflannu. Mae'r OT yn rhedeg cofrestr tai hygyrch.

Mae gan Rionda Cynon Taf OTs a swyddogion grantiau wedi'u cyd-leoli yn yr un swyddfa. Yn wreiddiol roeddent ond yn cyflogi un OT yn yr adran dai ar secondiad. Roedd hyn yn gweithio'n arbennig o dda wrth gynnal ymweliadau ar y cyd cyn cyfeirio ar achosion cymhleth. Fodd bynnag, roedd pryderon bod yr OT yn cael ei arwahanu, heb unrhyw gymorth gan OTs eraill ac y gallai'r trefniant gyfyngu ar eu datblygiad proffesiynol. Yna penderfynwyd cyd-leoli'r gwasanaethau.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cyflogi 1 OT ac OT cynorthwyol yn yr adran dai. Mae'r holl OTs eraill wedi'u cyfuno rhwng yr awdurdod lleol a'r ymddiriedolaeth ieuchyd; ceir memorandwm dealltwriaeth sy'n cynnwys gweithdrefn gydgyssylltiedig a phrotocol ar gyfer cyfeirio o OTs eraill. Roedd hyn wedi gweithio'n dda o ran bod atgyfeiriadau yn dueddol o fod yn briodol a bod gan OTs eraill ddealltwriaeth dda o beth gall DFGs eu cyflawni.

N. Rhaglen Addasiadau Brys

34. Dylai'r rhaglen RRAP gael ei gadarnhau fel parhau y tu hwnt i'w gynnig peilot cychwynnol o 3 blynedd

Mae'r RRAP yn parhau i redeg, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu'n flynyddol, yn unol â pholisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyllidebau.

34. Dylai arian sy'n cael ei ddyrannu i'r rhaglen gael ei gynyddu i adlewyrchu'r galw gwirioneddol am RRAP o fewn y paramedrau a ddiffiniwyd yn glir o nodau a chymhwysedd y rhaglen

Mae cyllid RRAP wedi cynyddu ers 2005.

36. Dylid rhoi ystyriaeth i ffynhonnell y cyllid ar gyfer y rhaglen yn y dyfodol fel bod hyn yn adlewyrchu'r hyn mae'r rhaglen yn ei darparu o ran amcanion iechyd a gofal cymdeithasol

Cydnabyddir yn eang bod y RRAP yn ysgafnhau'r pwysau ar gyllidebau eraill fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae rhai awdurdodau wedi gwneud gwaith i nodi'r arbedion posibl a gyflawnir. Mewn rhai achosion mae awdurdodau iechyd a gwasanaethau gofal oedolion yn darparu cyllid ar gyfer RRAP neu wasanaethau cysylltiedig, gan awgrymu eu bod yn cydnabod eu buddion.

Roedd Tabl 7 yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn nodi'r arbedion posibl o addasiadau a ariennir gan DFG. Yn amlwg mae'r un peth yn berthnasol i waith a ariennir gan RRAP. OS yw RRAP yn galluogi rhywun i gael ei ryddhau o'r ysbyty wythnos yn gynharach nag fel arall, mae'n bosibl arbed hyd at £5,000.

Mae Gofal a Thrwsio Cymru yn monitro gwariant ar RRAP a'r mathau o waith a gwblheir. Ar gyfer 2008/9, gwnaethant amcangyfrif am bob £1 a wariwyd ar RAP, mae £7.50 yn cael ei arbed mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol.

37. Dylid ystyried rhaglen debyg i RRAP sy'n cwmpasu daliadaethau tai cymdeithasol, gan roi ystyriaeth briodol i ddarparu drwy'r rhwydweithiau a'r partneriaethau a ddatblygwyd eisoes

Roedd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn credu bod trefniadau eisoes ar waith ar gyfer mân waith gan osgoi'r angen am raglen debyg i RRAP sy'n cwmpasu tenantiaethau tai cymdeithasol. Fodd bynnag nid oes gan OTs iechyd amser na gwybodaeth i weithio eu ffordd drwy'r trefniadau mynediad gwahanol ar gyfer beth y dylid ei ddiffinio fel rhaglen gyflym ac ymatebol. Dylai fod yn bosibl i OTs iechyd gyfeirio pob achos at un pwynt mynediad (Gofal a Thrwsio) a fyddai wedyn yn atgyfeirio yn ôl yr angen. Gofal a Thrwsio, yr awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai yn lleol fydd yn penderfynu ai Gofal a Thrwsio fydd yn gwneud y gwaith hwn a'u had-dalu neu a allai landlordiaid cymdeithasol ymateb o fewn yr un amser.

O. Argymhellion

Deddfwriaeth

- Dylai DFG aros yn grant gorfodol
- Dylai'r prawf modd gael ei adolygu a'i symleiddio
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i weithio i greu llyfryn gwybodaeth a allai fod ar gael drwy'r holl awdurdodau lleol ac asiantaethau Gofal a Thrwsio
- Bydd angen i'r llyfryn gael ei gefnogi gan wybodaeth sy'n cael ei theilwra'n lleol. Dylai gael ei lunio ar y cyd â'r awdurdod lleol, gwasanaeth Gofal a Thrwsio lleol a darparwyr perthnasol yn y sector gwirfoddol i sicrhau bod y cyngor yn gyson o hyd
- Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod deunydd darllen priodol ar gael yn eu hardal a bod gwasanaethau yn cael eu hyrwyddo a'u hysbysebu
- Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod gan bartneriaid wybodaeth am DFGs a'u bod yn gallu gwneud atgyfeiriadau at y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys meddygon teulu, staff mewn ysbyty, gweithwyr gofal cartref, ac eraill sy'n gweithio gyda phobl hŷn; mae teuluoedd â phlentyn anabl yn fwy tebygol o gael eu hatgyfeirio gan staff ysbyty a gweithwyr iechyd eraill
- Dylai pob awdurdod lleol orfod nodi ei ddiffiniad clir o 3 math o addasiadau, gyda thargedau ar wahân y cytunwyd arnynt yn lleol er mwyn darparu pob math o addasiad. Byddai'r rhain yn cynnwys:
 - o Mân waith hyd at derfyn ariannol y cytunwyd arno (gydag enghreifftiau o'r math o addasiad a ragwelir). Dylai'r amserlen a nodwyd ar gyfer hyn adleywrchu'r ffaith mai mân waith ydynt. Ni fyddai angen i OT fod yn gysylltiedig â'r achosion hyn fel arfer.
 - o Addasiadau llwybr cyflym pan fydd cyfaint rhesymol o'r math o addasu ac mae'r awdurdod lleol yn gallu rhoi'r ceisiadau hyn ar lwybr cyflym; gallai hyn gynnwys lifftiau grisiau, lifftiau eraill, cawodydd mynediad lefel, gosod toiled/cyfleusterau ystafell ymolchi, a rampiau allanol (er gallai rhai o'r rhain gael trin fel mân waith). Dylai pob awdurdod lleol benderfynu pa addasiadau dylid eu cyflymu. Dylai'r amserlen a osodir ar gyfer addasiadau cyflym fod yn heriol, gan wneud defnydd o fanylebau safonol, rhestrau cyfraddau a chontractwyr a ffefrir. Ni fyddai angen i OT fod yn gysylltiedig fel arfer yn yr achosion hyn.
 - o Addasiadau eraill, a fyddai angen taliadau cyfreithiol yn erbyn eiddo i adennill costau DFGs, a monitro faint o arian a gaiff ei ad-dalu o hyn.

Ariannu

- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyllidebau ar gyfer DFGs yn cael eu diogelu cymaint â phosibl o doriadau gwariant yn y dyfodol, a bod digon o arian ar gael i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i fonitro gwariant a pherfformiad ar DFG ar lefel awdurdod y dyfodol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn glir i gymdeithasau trosglwyddo stoc na ddylent ddibynnu ar yr awdurdod lleol i ddarparu arian ar gyfer addasiadau (pan fydd cyllid a neilltuwyd yn y cynllun busnes yn annigonol) a phan fydd cytundebau lleol ar waith i wneud y rhain dylai'r rhain cael eu dileu fesul cam cyn gynted â phosibl.

Oedi

- Mae lle i fwy o rannu arfer da. Nid oes rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw i arfer gorau a gallai fod yn anodd gosod hyn. Serch hynny, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried a ellir cyhoeddi canllawiau pellach. Dylai hyn amlygu ffyrdd y mae awdurdodau lleol wedi cyflymu'r broses o weinyddu DFGs yn llwyddiannus, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithdrefnau a llythyrau safonol.
- Os byddai Llywodraeth y Cynulliad yn penderfynu cyhoeddi canllawiau pellach yna byddai hefyd yn briodol i gynnal cyfres o seminarau i hyrwyddo hyn, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol eraill
- Bydd ein hargymhelliad y dylai awdurdodau lleol osod targedau ar gyfer 3 categori addasu arall yn golygu cadw gwybodaeth leol am berfformiad ym mhob un o'r categorïau hyn, mae hyn yn golygu cost ychwanegol bychan iawn i awdurdodau ond mae'r rhan fwyaf yn cadw data ychwanegol ar berfformiad yn barod felly ni ddylai hyn fod yn feichus;
- Dylai awdurdodau lleol rannu data perfformiad drwy rwydweithiau presennol fel panel Technegol Tai CIEH.

Tenantiaid cymdeithas dai

- Dylai fersiwn terfynol o'r adolygiad PAG a threfniadau gael eu rhoi ar waith gan gynnwys cyflwyno PI ar gyfer cymdeithasau tai, ar yr un sail â'r PI presennol ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn gwneud cymarebau
- Anogir cymdeithasau tai i dalu am fân waith y tu allan i'w cyllideb eu hunain. Dylid defnyddio PAG pan yn briodol, gyda chymdeithasau tai yn codi'r costau am waith sy'n cael ei wneud uwchben yr uchafswm terfyn hwnnw
- Unrhyw drefniadau lleol ar gyfer awdurdodau lleol i godi costau am addasiadau ar gyfer cymdeithasau trosglwyddo stoc i'w adolygu gyda'r bwriad i orffen y rhain cyn gynted â phosibl

Cofrestrau tai hygyrch

- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt gofrestrau tai hygyrch ar waith sy'n galluogi addasiadau arwyddocaol i gael eu hailddefnyddio lle bynnag y bo'n bosibl; dylai'r cofrestrau hyn gael eu rhannu â chymdeithasau tai a chynnwys stoc wedi'i haddasu cymdeithasau tai

Therapyddion Galwedigaethol

- Dylai awdurdodau lleol wneud y defnydd gorau o sgiliau OTs drwy sicrhau bod OTs cynorthwyol priodol neu swyddogion technegol ar gael i ddelio â mân waith a gwaith llwybr cyflym.

Cyffredinol

- Dylai awdurdodau lleol adolygu a chryfhau gofynion ar gyfer tai hygyrch newydd i sicrhau bod cyflenwad newydd yn gallu helpu i ddiwallu anghenion pobl anabl;
- Dylai cymdeithasau tai hefyd adolygu eu gofynion dylunio i sicrhau eu bod yn rhagweld ac yn cyflawni safonau newydd

ASTUDIAETHAU ACHOS SEFYDLIADOL**Astudiaeth Achos – Cardiff Accessible Homes**

Mae Cardiff Accessible Homes (CAH) wedi bod yn gweithredu ers 2003. Cafodd ei sefydlu i oresgyn dwy broblem gysylltiedig: pan fydd cymdeithasau tai wedi addasu eiddo i'w gosod roeddent yn aml yn methu â dod o hyd i rywun oedd angen yr addasiadau hyn; cafodd yr eiddo eu gosod i aelwydydd nad oedd angen yr addasiadau arnynt ac yn aml roedd yr addasiadau yn cael eu tynnu oddi yno. Ar y pryd, roedd y rheiny oedd angen tai hygrych yn teimlo bod y cyflenwad yn fychan iawn a'u bod yn aml yn wynebu arhosiad hir cyn y gellir dod o hyd i rywle addas.

Mae CAH yn gweithio gyda, ac yn cael ei ariannu gan, Gyngor Dinas Caerdydd a 7 cymdeithas dai: Cardiff Community (sy'n cynnal y project), Cadwyn, Taf, Hafod, Linc-Cymru, United Welsh a Wales and West. Mae'n darparu:

- Cofrestr ar y cyd o aelwydydd sydd angen eiddo wedi'u haddasu
- Cofrestr ar y cyd o eiddo wedi'u haddasu
- Gweithdrefn gyffredin ar gyfer nodi eiddo posibl wedi'i haddasu
- Proses gyffredin ar gyfer cyfateb eiddo ag ymgeiswyr
- 2 OTs a all asesu anghenion ymgeiswyr
- System asesu ganolog ar gyfer ceisiadau DFG
- Cyngor, argymhellion ac arwyddion ar fylchau mewn darpariaeth
- Cynllun cyfnewid tai wedi'u haddasu.

Ers ei ddechrau mae CAH wedi cyflawni

- Dros 500 o osodiadau llwyddiannus
- 867 o asesiadau OT
- 300 o asesiadau ar gyfer Grant Mynediad Ffisegol (PAG)
- Ailgartrefu 26 cleientiaid sy'n wynebu oedi wrth drosglwyddo gofal, gan arbed hyd at £500,000 mewn costau ysbyty (yn seiliedig ar gost gwely ysbyty am £1,750 yr wythnos, a rhyddhau 10-12 wythnos yn gynt nag y byddai'n bosibl fel arall)
- Arbedion o dros £2m ar gyllideb DFG, gan y byddai addasiadau yn gorfod cael eu cynnal fel arall ar gyfer yr aelwydydd hyn

Mae CAH nawr yn bwriadu ymestyn eu gwaith i'r sector rhent preifat.

Mae CAH yn credu eu bod hefyd yn:

- Dylanwadu prosesu o ran sut mae eiddo addasadwy yn gallu cael eu nodi a'u gwneud ar gael i bobl anabl
- Dylanwadu cyfansoddiad datblygiad tai cymdeithasol newydd.

Astudiaeth Achos – Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Mae nifer o'r enghreifftiau o arfer da a nodwyd yn yr adroddiad yn dod o Gaerffili; mae'r wybodaeth isod yn sôn ymhellach am y rhain.

Therapyddion Galwedigaethol

Mae Caerffili eisoes yn cynyddu nifer yr OTs cyn cyhoeddi adroddiad 2005. Credir mai nhw yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyflogi OT o fewn yr adran dai. Cyflogwyd yr OT yn wreiddiol yn bennaf i weithredu fel cyswllt rhwng yr adran dai a'r OTs yn y gwasanaethau cymdeithasol, ond yn gyffredinol mae'r cyfathrebu bellach yn dda ac mae llai o angen i'r rôl hon. Mae'r OT hefyd yn cynnal y gofrestr tai wedi'u haddasu. I oedolion, yr amser aros am apwyntiadau OT yw tua 6 wythnos.

Mae mân waith yn cael ei asesu gan gynorthwyr OT, neu gan ffisiotherapyddion neu staff mewn ysbyty. Diffinnir mân waith fel gwaith am hyd at £800. Mae Caerdydd wedi adolygu ei derfyn o £800 yn ddiweddar ond nid yw'n gweld unrhyw reswm dros ei gynyddu, mae pryder os byddant yn cynyddu'r terfyn yna byddai costau gwaith yn costio mwy hyd at y terfyn newydd.

Gall OTs a swyddogion ail-alluogi gyfeirio pobl at wasanaethau tele-ofal lle y bo'n briodol.

Ar gyfer gwaith a ariennir gan PAG, bydd OTs yn cynnal asesiad ac yn trosglwyddo'r argymhelliad i gydweithwyr tai i'w drosglwyddo i'r RSL, fel bod yr adran dai yn cael gwybod beth sy'n digwydd.

Mae Caerffili yn weithgar wrth rannu eu profiadau a hyrwyddo arfer da. Maent yn cymryd rhan mewn grŵp ymgynghorol OTs cymunedol sy'n gweithio i uno grŵp OTs iechyd yn rhannol.

Cofrestru Tai Hygyrch

Mae Caerffili yn arbennig o ragweithiol wrth annog pobl i ystyried symud lle mae'r eiddo presennol yn anaddas ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol. Maent yn ystyried y mater o beth sy'n briodol o ddifrif, gan fod nifer o eiddo yn y fwrdeistref lle nad yw addasiadau sylweddol yn briodol, e.e. eiddo gyda llawer o risiau i fyny at y drws blaen pan fydd y llethr yn rhy serth am ramp. Maent yn cynnig grant "adleoli" i'r rheiny sydd yn y sector preifat sy'n symud, ac yn ymweld a'u hannog i feddwl am opsiynau. Yn aml mae pobl yn poeni am gollu cymorth teulu os ydynt yn symud i ffwrdd o ardal, ac weithiau mae pryder am beidio â gadael etifeddiaeth mor sylweddol. Mae hefyd materion o ran dod o hyd i eiddo addas - gall gymryd amser hir i eiddo addas o'r cyngor fod ar gael. Mae ganddynt drefniadau adeiladu at archeb i rai teuluoedd, mewn partneriaeth â RSLs, er bod yr amser ar gyfer hyn yn golygu eu bod yn fwy ymarferol i deuluoedd â phlentyn anabl, er eu bod hefyd wedi gwneud y rhain ar gyfer oedolion.

Byddant yn ystyried opsiwn pob daliadaeth gan gynnig cymorth i'r rheiny sy'n symud o fewn neu i'r sector perchen-feddiannydd. Gyda rhenti preifat byddant yn annog pobl i symud i dai cymdeithasol; fel arfer mae landlordiaid preifat yn llai awyddus i weld addasiadau sylweddol yn eu heiddo ac mae pryderon o hyd ynghylch hyd a diogelwch tenantiaeth.

Mae'r gofrestr eiddo wedi'u haddasu wrthi'n cael eu datblygu. Maent yn asesu a chategoreiddio eiddo wrth iddynt ddod yn ddi-rym. Maent wedi edrych ar gynlluniau eraill, gan gynnwys Cofrestr Tai Hygyrch Llundain ond maent wedi mynd am gategoreiddio symlach. Yna pan fydd angen eiddo wedi'i addasu ar rywun edrychir ar eu cod a chânt eu cyfateb. Nid yw RSLs ar hyn o bryd yn rhan o'r gofrestr, ond mae Caerdydd yn awyddus i'w cynnwys ac wedi cael trafodaethau agored â Charter Housing. Bydd RSLs eisoes yn dod i'r awdurdod lleol os oes ganddynt eiddo wedi'u haddasu a chyfeirio pobl sydd angen eiddo wedi'u haddasu, felly mae cydweithio.

Maent yn awyddus i glywed eiddo nad ydynt wedi'u haddasu ond sydd â'r potensial i gael eu haddasu neu'n addas yn gynhenid gan ddyluniad.

Astudiaeth Achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – defnyddio meddylfryd systemau diwastraff i weinyddu DFG

Roedd nifer o bobl y siaradwyd â nhw yn awgrymu ein bod yn ymweld â Chastell-nedd Port Talbot i edrych ar y ffordd maent wedi defnyddio meddylfryd systemau diwastraff i weinyddu DFG. Mae'r wybodaeth ganlynol yn deillio o'n hymweliad yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan Gastell-nedd Port Talbot, a hefyd gwybodaeth a gymerwyd o adroddiad a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a'r Ganolfan Ymchwil Menter Diwastraff ym Mhrifysgol Caerdydd (LERC).

Mae hanner o boblogaeth Castell-nedd Port Talbot (NPT) dros 50 oed ac mae'r gyfran hon yn cynyddu. Mae gan nifer uchel iawn salwch cyfyngus hirdymor hefyd (34% o'r boblogaeth; mae 56% o'r rhain dros 50). Roedd NPT yn wynebu galw cynyddol am DFGs. Roeddent hefyd am wella perfformiad. Roedd dadansoddiad cychwynnol yn dangos bod y mwyafrif helaeth o addasiadau (92%) yn mynd i bobl dros 50 oed, a'u bod eisoes wedi cynnal gwaith a ariennir gan DFG ar 6% o'r eiddo yn y fwrdeistref.

Mae defnyddio dull systemau didrafferth wedi galluogi NPT i gyflawni newid mewn perfformiad fel y mesurir gan amseroedd prosesu dechrau i'r diwedd ar gyfer DFG: o un o'r awdurdodau sy'n perfformio waethaf yng Nghymru gyda chyfartaledd o 675 diwrnod (er bod ganddo lefelau uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid) i gyfartaledd o 64 diwrnod (a gymerwyd o adroddiad WAO ac yn seiliedig ar sampl o 39 achos, dim data diwedd blwyddyn gyflawn; data NPT ei hun 74 diwrnod, neu 31 os caiff ei fesur o'r ymweliad cartref ar y cyd cyntaf). Cyflawnwyd y canlyniad syfrdanol hwn drwy:

- Gyflwyno ymweliad cartref ar y cyd ymlaen llaw
- Lleihau nifer y camau sy'n gysylltiedig â'r broses o 291 i 34
- Lleihau faint o "alw ataliol" yn y system.

Trafodir y rhain yn llawnach isod.

Mae wedi bod cryn dipyn o amheuaeth gan rai awdurdodau lleol o ran a yw amseroedd prosesu NPT wir yn mesur o'r dechrau i'r diwedd, p'un a yw'r rhain yn ystyried oedi a achosir gan gwsmeriaid ac ati. Mae hyn yn adlewyrchu amheuaeth eang am y PI a'r farn nad yw'n bosibl i ddarparu DFGs yn yr amserlenni mae NPT yn awgrymu. Er nad ydym wedi archwilio'r ffigurau, nid oes gennym reswm i beidio â'u credu.

Mae'r broses ail-ffurfweddu yn cynnwys ymweliad ar y cyd cychwynnol gan yr OT a'r swyddog technegol a'r swyddog sydd yn delio â'r prawf modd. Mae hyn yn gosod yr arbenigwyr ar flaen y gad. Defnyddir yr ymweliad i ganfod anghenion yr unigolyn, beth sydd bwysicaf iddynt ac archwilio'r posibiladau mewn perthynas a'r rhain a'u ffordd o fyw. Mae'r OT yn mynd â chyfarpar gyda nhw a gallant adael unrhyw beth a allai fod o ddefnydd iddynt. Cyn yr ymweliad maent yn gwneud cymaint o waith paratoadol â phosib gan wirio gofrestrfa'r tir am fanydlion perchnogaeth, a gwirio budd-daliadau a delir ac ati. Ar ôl yr ymweliad cychwynnol bydd y swyddog technegol yn aros gyda'r un achos o'r dechrau i'r diwedd fel mai dim ond un person sydd yn rhaid i'r cwsmer ddelio ag ef.

O ran y broses, mapiodd NPT 291 o gamau i ddechrau yn y broses bresennol. Dim ond 20 o'r rhain oedd o unrhyw werth i'r cwsmer. Maent bellach wedi mynd â'r camau i lawr i 34, gyda'r 8 o'r rhain oedd o werth i'r cwsmer. Un agwedd allweddol o'r dull systemau diwastraff yw edrych ar ble a pham mae cyswllt â'r cwsmer yn codi, a cheisio dileu'r cysylltiadau hynny nad ydynt yn ychwanegu unrhyw werth. Roedd NPT yn gweld i ddechrau bod lefel uchel o "ale ataliol" - 71% o'r holl gysylltiadau gan fod y cwsmer yn cysylltu i weld beth sy'n digwydd, neu ddim yn deall rhywbeth a anfonwyd atynt. Maent bellach wedi lleihau hyn i 40% o alw ataliol, sy'n lleihad mwy sylweddol na'r hyn mae'n ymddangos gan fod nifer y troeon mae cwsmer yn gorfod cysylltu â'r gwasanaeth hefyd wedi lleihau. Mae cost gwaith cyfartalog wedi lleihau £400 ac mae'r gost gyfartalog o ddarparu wedi lleihau o £499 i £319. Mae llai o bobl yn rhoi'r gorau iddi o dan y system newydd hefyd. Mae'r rheiny sydd yn rhoi'r gorau iddi yn dueddol o fynd yn ôl i wasanaethau gofal oedolion, felly maent bellach yn edrych am ffordd o nodi pan fydd rhywun yn hunangyfeirio i wasanaeth arall. Mae bodlonrwydd cwsmeriaid yn 100% ar hyn o bryd. Maent yn teimlo bod y profiad cwsmer cyfan yn wahanol iawn.

Un o elfennau allweddol o'r gwaith y mae NPT wedi'i wneud yw casglu tystiolaeth fanwl am alw, nid yn unig ar gyfer addasiadau ond ar gyfer gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan yr un cwsmeriaid.

Mae'r dull systemau diwastraff yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gofyn am ddata arwyddocaol. Roedd NPT yn awyddus i feddwl am o le daw'r galw. Roedd y dadansoddiad yn awgrymu bod y galw tua 25% y mis yn fwy nag yr oedd yn flaenorol, oherwydd y nifer uchel o bobl yr oedd yn rhoi'r gorau iddi. Roedd rhai o'r rhain am resymau da ond nid oedd eraill yn datblygu. Mae angen deall pam bod pobl yn rhoi'r gorau iddi gan y gallai llawer o'r rhain arwain at alwadau ar wasanaethau eraill. Gwnaethant hefyd ddadansoddi'r mathau o waith roeddent yn ei wneud - roedd 80% o'r gwaith ar gyfer cawodydd mynediad lefel, felly maent wedi canolbwyntio ar symleiddio'r gwaith hwn.

Gwnaethant hefyd fapio'r nifer o weithiau roedd pobl wedi cysylltu â gofal cymdeithasol oedolion cyn gwneud cais am DFG. Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi cysylltu 5 neu 6 gwaith â gofal cwsmeriaid oedolion, sy'n awgrymu nad yw pobl yn cael eu hystyried am DFG yn ddigon cyflym. Nid yw DFG yn ymddangos fel petai'n opsiwn i lawer o weithwyr gofal, neu caiff ei ystyried fel y dewis olaf. Roedd pryder hefyd bod pobl yn cael gwasanaeth gwahanol yn dibynnu ar ba ran o'r gwasanaeth maent yn cysylltu â hi yn gyntaf.

Roedd NPT yn awyddus i archwilio'r berthynas rhwng DFG a gwasanaethau eraill. Roeddent yn edrych ar bobl yn mynd i ofal preswyl dros gyfnod o 5 mlynedd, o'r rhain cafodd 244 eu cyfeirio at DFG. O'r rhain, roedd 85 wedi cael DFG, 159 wedi rhoi'r gorau iddi neu heb ddatblygu. Roedd y rheiny a oedd wedi cael DFG ar gyfartaledd wedi mynd i ofal preswyl 4 blynedd yn ddiweddarach na'r rheiny nad oedd wedi cael DFG. Felly petai'r 159 nad oeddent wedi parhau wedi cael DFG, byddai wedi costio £2m ond byddent wedi arbed £12m ar ofal preswyl. Roedd DFG yn cael ei gyflwyno yn llawer rhy hwyr yn y broses.

O'r rheiny a roddodd orau i'r broses DFG, aeth 135 i ofal cartref.

Yna edrychodd NPT ar 160 o bobl oedd wedi cael DFG. Ar ôl 5 mlynedd, dim ond 14 oedd yn cael gofal cartref; roedd 6 wedi bod yn cael gofal cartref cyn iddynt gael DFG; roedd 5 wedi cynyddu eu cymorth. Dim ond 3 oedd yn cael gofal cartref am y tro cyntaf. Felly nid oes tystiolaeth bod DFG yn gweithredu fel pasbort i ofal cartref.

O'r rheiny oedd ar y rhestr aros am DFG, roedd 25% wedi cael pecyn gofal cartref wrth aros, felly os byddai DFG wedi cael ei ddarparu'n gynt gallai fod wedi lleihau'r galw ar ofal cartref.

Aethant hefyd i ymweld â'r rheiny oedd wedi cael DFG yn flaenorol a gwelwyd nad oedd rhai yn defnyddio'r cyfarpar. Roedd yn well gan rai o'r rhain gael gofal cartref. Nid oedd eraill yn hyderus o ran sut i ddefnyddio'r offer neu ddim yn deall sut i'w ddefnyddio. Maent bellach yn mynd â phobl i weld enghreifftiau o'r mathau o waith maent yn eu hystyried fel y bydd pobl yn cael gwell syniad o'r cynnyrch terfynol: os na fydd hyn yn bosibl byddant yn dangos lluniau/DVDs.

Gwelwyd bod y rheiny a roddodd y gorau iddi yn dilyn y prawf modd yn parhau i fod eisiau rhyw fath o gymorth, i sicrhau bod yr atebion a roddwyd ar waith yn briodol. Gallant argymhell adeiladwr profiadol, cysylltu budd-daliadau a gwneud y gwaith dilynol ar hyn. Gallant hefyd drefnu i gynnal gwaith atgyweirio, drwy'r cyllidebau mân waith neu beth bynnag arall sy'n briodol.

Maent wedi dadansoddi'r galw am wasanaethau gofal cartref ac wedi canfod bod llawer o amser yn cael ei dreulio yn glanhau comôd a chynnau tân. Maent bellach yn canolbwyntio ar yr achosion hyn i weld a allai gosod ystafell ymolchi a/neu wresogi fel y bo'n briodol leihau'r angen am ofal cartref. Darparwyd enghreifftiau o ddau achos, un lle roedd rhywun yn gallu gadael gofal preswyl a dychwelyd adref gyda DFG, ac un lle roedd rhywun a oedd yn cael ei ryddhau o'r ysbyty ond yn credu y byddai'n rhaid iddynt fynd i ofal nyrsio yn gallu dychwelyd adref.

Astudiaeth Achos: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae Conwy wedi lleihau nifer y diwrnodau i brosesu ceisiadau DFG yn sylweddol, o 905 dydd yn 2006/7 i 237 diwrnod yn 2009/10, lleihad o 668 diwrnod.

Cyn 2004, roedd holl waith a ariennir gan DFG yng Nghonwy yn cael ei wneud gan yr Asiantaeth Gofal a Thrwsio ond roedd problemau gyda'r Asiantaeth a phenderfynodd Conwy wneud y gwaith a ariennir gan DFG yn fewnol. Mae'r Asiantaeth Gofal a Thrwsio bellach yn gweithio'n dda eto, yn gwneud gwaith a ariennir yn breifat, profion diogelwch cartref a RRAP. Pan gychwynnodd Conwy y gwaith mewnol roedd oedi hir o hyd wrth ddarparu'r addasiadau, yn rhannol oherwydd bod ôl-groniad ac yn rhannol oherwydd roedd rhaid iddynt ddylunio prosesau gwaith newydd a rhoi contractau newydd sbon ar waith.

Mae Conwy yn priodoli eu gwelliant hynod i nifer o benderfyniadau a gweithgareddau allweddol:

- Ystyrir cymhorthion ac addasiadau yn flaenoriaeth gorfforaethol;
- Pan ddaeth y gwasanaeth yn fewnol cynhaliwyd adolygiad o'r holl brosesau a chafodd y tîm ei strwythuro i ddarparu gwasanaeth effeithlon. Yn fwy diweddar, mae dull systemau diwastraff wedi'i gymryd gyda nifer o gamau yn y broses yn cael eu lleihau
- Gweithio'n agos gydag OTs, gan gynnwys ymweliad ar y cyd yn cynnwys yr OT a'r swyddog technegol ar ddechrau'r broses
- Defnyddio panel contractwyr a ffefrir gan gynnwys amserlenni tynn ar gyfer darparu
- Gweithio gydag eraill i adolygu a chyflwyno arfer da; mae Conwy yn hwyluso llawer o waith traws-awdurdod gydag awdurdodau lleol eraill yng ngogledd Cymru, ac OTs hefyd yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau lleol a chenedlaethol
- Swyddog penodol i gefnogi ceisiadau drwy'r prawf modd ac i weithredu fel pwynt cyswllt ac olrhain cynnydd wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Mae Conwy yn cyflawni adborth cwsmer da iawn (97% am y flwyddyn hyd yma). Roedd holiadur adborth cwsmeriaid yn fanwl iawn. Caiff cyfraddau bodlonrwydd eu dadansoddi gan swyddog, gan OT a chontractwr er mwyn gallu nodi unrhyw batrymau.

Mae'r gyllideb ar gyfer DFGs wedi disgyn ers ei anterth o £3.5m yn 2007/8, gyda chyllideb y llynedd wedi'i gosod ar ychydig llai na £2m ac eleni am £1.5m. Mae nifer y grantiau a gymeradwywyd hefyd wedi lleihau ychydig o dros 200 yn y flwyddyn anterth honno i 167 y llynedd, fodd bynnag, mae costau gwaith cyfartalog hefyd yn lleihau, o dros £500 yn 2006/7 i lai na £150 y llynedd. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu newidiadau o ran galw a'r atebion a nodwyd, ond mae hefyd yn adlewyrchu gwaith sylweddol i leihau'r gost drwy fanyleb dynnach a chaffael effeithiol.

ASTUDIAETHAU ACHOS CLEIENTIAID

Roedd gan deulu X blentyn oedd yn paraplegig. Roedd y teulu yn byw mewn adeilad nad oedd yn bosibl ei addasu. Gwnaeth y teulu hyd yn oed gyflogi eu peiriannydd eu hunain i geisio meddwl am atebion ond nid oedd unrhyw beth briodol yn gallu cael ei wneud. Yna cafodd y cartref hwn ei adfeddiannu ac aeth y teulu i lety rhent preifat. Roedd hwn yn dal yn anaddas i'w addasu (ddim yn anodd iawn i'w addas), ac roedd y Cyngor yn cael trafferth i feddwl am benderfyniad oherwydd aelodau'r teulu. Ar y pryd, ymwelodd yr OT â chwpl oedrannus a oedd yn awyddus i symud o eiddo RSL a sylweddolwyd ar unwaith y byddai'n addas ar gyfer y teulu â'r plentyn anabl. Felly roeddent yn gallu blaenoriaethu symud y cwpl oedrannus i lety lloches cyngor ac yna gweithiwyd gyda'r RSL i symud y teulu i'r cartref gwag. Gwnaed gwaith ar y cyd â'r RSL i addasu'r eiddo i ddiwallu anghenion y teulu yn llawn.

Cafodd Mrs X ystafell ymolchi newydd wedi'i gosod gan gynnwys cawod mynediad lefel. Mae hi yn ei 90au ac yn dioddef o demensia; mae ei merched yn awyddus iawn i'w chadw yn ei chartref ei hun gan eu bod yn teimlo y byddai'r demensia yn gwaethygu'n gynt pe byddai'n cael ei chymryd i ffwrdd o'r pethau mae'n gyfarwydd â nhw. Roddent wedi gosod cawod newydd eu hunain ond nid oedd lle i'r gofawyr ei helpu i gael cawod ac felly nid oedd yn gallu ei defnyddio. Helpodd y gofawyr nhw i gysylltu â'r OT a ddaeth allan i wneud yr asesiad. Roedd yn rhaid iddynt aros tua chwe mis i'r gwaith gael ei wneud; trefnodd y cyngor hyn ar adeg pan roedd Mrs X mewn gofal seibiant. Gwnaeth y gweithwyr waith gwych ac roeddent yn hapus iawn gyda'r canlyniad.

Roedd Mrs X yn ei chael yn gynyddol anodd i ymdopi â'r grisiau neu fynd i mewn ac allan o'r bath. Roedd wedi disgyn i lawr y grisiau ychydig o weithiau ac yn gorfod aros i rywun cerdded y tu ôl iddi i fyny'r grisiau rhag ofn iddi syrthio eto. Awgrymodd aelod o'r teulu a oedd yn gweithio fel nyrs ardal ei bod yn cysylltu â'r cyngor. Roedd yn rhaid iddi aros 4 mis am asesiad OT, yna gosodwyd lifft grisiau dros dro yn gyflym iawn. Cymerodd 10 mis i'r lifft grisiau parhaol gael ei adeiladu a'i osod. Mae hi'n hapus iawn gyda'r lifft grisiau. Cysylltodd y cyngor â hi eto flwyddyn ar ôl i'r lifft gael ei osod i wneud yn siŵr bod popeth yn iawn ac i weld a oedd angen rhagor o gymorth arni.

Roedd mam ar y rhestr aros am ofal preswyl, drwy osod rampiau a threfnu iddi fynd i ofal dydd roedd yn bosibl iddi aros adref gyda chymorth ei merch.

Roedd un achos cymhleth yn cynnwys rhywun oedd â pharlys ymledol. Roedd eu symud eisoes yn gyfyngedig ac yn debygol o waethygu. Roedd cynllun y tŷ yn golygu nad oedd gosod lifft grisiau neu lifft arall yn bosibl. Yna edrychodd yr OT ar yr opsiynau eraill ac awgrymwyd yn y pen draw i newid y garej yn lle i fyw ynddo. Nid oedd hyn yn syml ac roedd problemau gyda mynediad ac roedd angen lifft grisiau allanol. Cymerodd popeth chwe mis i gytuno ar y fanyleb ar gyfer y gwaith, a chwe mis arall gyda'r adeiladwyr ar y safle i gwblhau'r gwaith.

ADBORTH O YMGYNGHORIAD CWSMERIAID

Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliwyd cyfweiliadau gyda o amgylch 20 cwsmer. Cynhaliwyd rhai o'r rhain yng nghartref y cwsmeriaid, a rhai dros y ffôn. Pan gynhaliwyd cyfweiliadau yng nghartrefi'r bobl, cafodd y cwsmeriaid eu dewis gan yr awdurdod lleol. Ar gyfer y cyfweiliadau dros y ffôn, anfonwyd llythyrau at ddetholiad o gwsmeriaid ar hap, a oedd yna'n dewis eu hunain i gael eu cynnwys drwy ffonio'r rhif a roddwyd. Gwnaethom gynnwys cwsmeriaid lle roedd y gwaith wedi'i gwblhau yn y ddwy flynedd ddiwethaf, i geisio sicrhau bod adnoddau yn cael eu rhannu orau.

Gofynnwyd i ddechrau am y math o waith a gynhaliwyd, a'r bodlonrwydd cyffredinol. Fel y gellir disgwyl, roedd y math o waith a gynhaliwyd yn amrywio'n fawr, o lifft grisiau syml i estyniadau cymhleth. Ar y cyfan roedd y cyfraddau bodlonrwydd yn uchel iawn gan gwsmeriaid, yn wir ni allai'r rhan fwyaf o gwsmeriaid ganmol yr awdurdod lleol neu'r contractwyr ddigon. Ymysg y sylwadau nodweddiadol roedd:

“Roedd y contractwyr yn wych. Gwaith hyfryd!”.

“Roedd y gwasanaeth yn dda iawn. Gadawon nhw fi i dalu'r contractwr am rywfaint o waith ychwanegol, roedd yn llawer haws gwneud popeth ar yr un pryd. Nawr gallaf fynd i mewn ac allan o'r tŷ a symud o gwmpas y llawr gwaelod yn hawdd iawn”.

“Fe wnaethon nhw drefnu i'r gwaith gael ei wneud pan roedd mam mewn gofal seibiant, roedd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr”.

“Dyma'r peth gorau a allai fod wedi digwydd. Rwyf mewn cadair olwyn ac mae fy ngŵr yn dda ac maent wedi cynllunio'r gegin fel y gallaf i ddefnyddio un ochr ac y gall ef ddefnyddio'r llall. Roeddem yn meddwl y byddai'n rhaid i ni symud ond nawr gallwn aros yn ein tŷ yn ein hunain”.

Gyda nifer o swyddi, nid oedd pethau mor syml â'r disgwyl. Er enghraifft, dywedodd un cwsmer fod plaster y nenfwd wedi dod lawr pan ddechreuodd y contractwr weithio ar yr ystafell ymolchi. Nid oedd hyn wedi'i ragweld ac nid oedd gosod y nenfwd yn ôl yn rhan o friff y contractwr, ond fe wnaethon nhw gysylltu â'r awdurdod lleol a ddaeth draw ar unwaith a chytuno bod angen gwneud y gwaith. Cafodd ei synnu ar yr ochr orau gan agwedd y contractwr a'r ffordd y gwnaethon nhw glirio ar eu holau bob dydd. Gwnaeth y cwsmer hefyd nodi bod yr ystafell ymolchi newydd yn hyfryd - roeddent yn poeni y byddai'n edrych gormod fel ystafell ymolchi mewn ysbyty ond nid dyma'r achos.

Dywedodd cwsmeriaid eraill y byddent wedi hoffi cael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystod yr adegau yr oeddent yn aros. Roedd bron pob cwsmer wedi dweud bod y contractwyr wedi ymddangos ar y diwrnod yr oedd disgwyl iddynt, a bod ganddynt syniad clir o'r hyn roedd y contractwr yn mynd i'w wneud. Nododd sawl cwsmer eu bod wedi mynd i weld offer wedi'u gosod rywle arall, neu'n cael offer i dreialu cyn gwneud penderfyniad. Dim ond un person ddywedodd nad oedd y contractwyr wedi ymddangos ar y diwrnod y disgwyliwyd

iddynt, gwnaethant ymddangos y diwrnod canlynol ond ni wnaed ymgais i gysylltu â hi i egluro'r oedi ac roedd yn rhaid iddi hi gysylltu â'r cyngor i weld beth oedd yn digwydd.

Roedd dros hanner y cwsmeriaid a gafodd eu cyfweld wedi cael mwy nag un darn o waith wedi'i wneud. Mae'r nifer hwn yn ymddangos yn uchel iawn, ac nid oedd ein sampl yn gynrychioladol o'r holl gwsmeriaid. Serch hynny, gallai adlewyrchu tueddiad bod cwsmeriaid yn dod i awdurdod lleol ar gam cymharol gynnar am ddarn o waith mwy syml, ond gallant ddod nôl 5-10 mlynedd yn ddiweddarach os yw eu symudedd yn gwaethygu.

Roedd cyfran sylweddol o gwsmeriaid - bron chwarter - wedi cael gwaith wedi'i wneud hefyd a thalu eu hunain cyn cael cymorth gan yr awdurdod lleol. Mewn un achos roedd y cwsmer wedi cael bath Jacuzzi wedi'i osod a fyddent yn gallu ei ddefnyddio am tua 5 i 6 mlynedd er y byddai'n rhaid ei dynnu pan fydd yr ystafell ymolchi yn cael ei hailfodelu, roeddent yn teimlo eu bod wedi gwneud defnydd da ohono yn y cyfamser. Yn yr achosion eraill, serch hynny, nid oedd y gwaith a wnaed wedi diwallu'r angen yn briodol - ac mewn rhai achosion roedd wedi rhoi y cwsmer mewn mwy o berygl (liffert grisiau amhriodol, gosod cawod nad oedd yn bosibl ei defnyddio gan nad oedd lle i'r gofalwr roi'r person yn y gawod). Mewn o leiaf un achos, roedd y cwsmer wedi trefnu benthyciad i gwblhau'r gwaith, a oedd yn eu rhoi mewn perygl o fynd i ddyled. Nid oedd llawer o gwsmeriaid wedi bod yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn gallu cyflawni gwaith addasu, tan eu bod wedi'u hafgyfeirio at yr awdurdod lleol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn hamddenol ynghylch faint o amser roedd y gwaith wedi'i gymryd. Roedd unrhyw feirniadaeth yn ymwneud â pheidio â chael eu hysbysu yn ystod y cyfnod hwn. Ymddengys bod hyn yn wir hyd yn oed os yr arhosiad yn hir neu'n fyr. Roedd yn rhaid i un wraig aros pedair blynedd cyn i'r gwaith gael ei gwblhau, er ei bod yn ddigon parod i nodi bod hyn yn bennaf oherwydd ei bod hi'n newid ei meddwl o hyd am yr hyn roedd ei eisiau. Roedd yn teimlo bod y cyngor wedi bod yn amyneddgar iawn, yn ymweld â hi sawl gwaith i drafod yr opsiynau a pheidio â'i roi o dan bwysau i benderfynu.

Roedd llawer o gwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r amser a dreuliyd gyda nhw yn egluro'r gwaith yn fanwl. Roedd tua chwarter o'r rheiny a gafodd eu gweld wedi bod i weld gwaith tebyg rywle arall - naill ai mewn uned ailalluogi neu yng nghartref cwsmer arall. Roedd un wraig yn poeni am osod lifft yn ei heiddo ond ar ôl gallu siarad â chwsmeriaid eraill am yr ymarferoldeb, parhaodd â'r gwaith ac ni wnaeth ddifaru.

O'r holl gyfweiliadau a gynhaliwyd, dim ond un person nad oedd yn fodlon iawn â'r gwasanaeth. Ymddengys fod y cwsmer wedi cael profiad gwael iawn a chadarnhaodd yr awdurdod lleol nad ydynt yn defnyddio'r contract a wnaeth y gwaith hwn mwyach. Roedd y problemau yn cynnwys gwaith gwael wrth osod drysau, peidio â chwblhau gwaith yn iawn (e.e. ceisio trwsio darn o lawr oedd wedi torri gyda sment) a pheidio â chymryd gofal priodol o eiddo'r cwsmeriaid (e.e. torri'r peiriant sugno llwch drwy ei ddefnyddio i glirio plaster gwlyb, gadael diferion concriid ar gar y cwsmer).

Gofynnwyd hefyd a fyddai cwsmeriaid yn cysylltu â'r awdurdod lleol eto pe byddai ganddynt anghenion yn y dyfodol. Dywedodd pob un ohonynt y bydden nhw - roedd hyd yn oed y cwsmer a gafodd profiad gwael yn teimlo mai bai y contractwr oedd y gwaith a bod yr awdurdod lleol wedi gwneud ei orau i gywiro pethau.

ADBORTH O WEITHDY GYDA GWEITHGOR EOC A RHANDDEILIAID EHangach

Cynhaliwyd gweithdy i ystyried canfyddiadau dros dro y gwaith hwn. Yn bresennol yn y gweithdy oedd gweithgor EOC a chynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau â diddordeb. Yn ystod y gweithdy, ystyriwyd rhai cwestiynau penodol gan y rheiny a mynychwyd. Nodir yr ymatebion isod:

Sut ydym yn sicrhau bod pawb sydd angen addasiadau yn gwybod ble i gael gafael ar y gwasanaeth?

- Arwyddion clir a chyson. Unwaith y byddwn wedi canfod pwy sy'n dangos arwyddion, sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth i sicrhau y gall cwsmer gael gafael ar y system yn iawn. Mae hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd yn hanfodol.
- Darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol e.e. y we, llyfrynnau ac ati. Y peth pwysig yw symlrwydd, nid cymhlethdod. Dylai fod yn ddull siop un stop.
- Hefyd gwneud yn siŵr bod grwpiau cymorth a sefydliadau'r trydydd sector yn gwybod pwy i gysylltu â nhw.
- Defnyddio cyfryngau sydd ar gael e.e. meddygfa teulu, swyddfa'r post. Ystyried cael un rhif ffôn i Gymru gyfan a fyddai'n eich trosglwyddo i'ch swyddfa leol.
- Sut bynnag rydym yn gwneud rhaid sicrhau bod rhywbeth yn digwydd o ganlyniad!

Sut ydym yn gwneud y defnydd gorau o gofrestrau tai a addaswyd? A ddylai fod gan gwsmer hawl i gael addasiad pan y gallai symud olygu gwell canlyniad?

- Angen bod yn ddewis cywir ym mhob ardal o Gymru p'un a i aros yn yr eiddo presennol a chael addasiad neu symud i rywle mwy addas. Nid oes gan bob awdurdod lleol gofrestrau effeithiol.
- Dylid ond cynnal addasiadau pan fyddant yn cynnig ateb rhesymol ac ymarferol, fel arall gellir archwilio opsiynau eraill.
- Ar gyfer perchen-feddianwyr dylai fod dewis o symud i eiddo arall y mae'r person yn berchen arno, gyda chymorth grant ar gyfer adleoli.
- Nid oes llawer o bobl hŷn am symud o'r hyn maent am iddo fod yn etifeddiaeth i'w plant.
- Din digon o stoc tai addas ar gael, yn enwedig tai cymdeithasol.

Sut ydym yn sicrhau canlyniadau effeithiol i'r cwsmeriaid? Beth yw'r cydbwysedd cywir rhwng cyflymer, cost ac ansawdd?

- Angen cael diffiniad clir o gwsmeriaid, ydyn ni'n siarad am bobl yn y system neu'r rheiny sydd angen addasiadau ond ddim yn gwybod ble i ddechrau.
- Enghreifftiau o gynllunio gwasanaethau drwy fapio anghenion poblogaeth, nid y ffordd arall.
- Dylai fod yn ymwneud â diwallu anghenion pobl, nid monitro'r PI yn unig.
- Sut i fesur ansawdd a chanlyniadau ac nid ansawdd a chyflymder yn unig.
- Defnyddio hunanasesiadau?
- Rhoi cyngor i bobl sy'n barod i wneud pethau eu hunain.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael fel y gall pobl ddewis yr hyn maent ei eisiau.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio i bobl ag anghenion cymhleth.
- Cymhlethdod presennol y system yn cyfyngu ar faint o wybodaeth tan yn hwyr yn y broses pan rydych yn gwybod pa lwybr mae pobl yn ei gymryd.
- Gwneud system yn gliriach a chyfathrebu hyd yn oed pan fydd pobl angen atebion wedi'u teilwra.
- Ddim yn cael safonau adeiladu yn iawn, er gwaethaf cartrefi oes.
- Sut ydym yn gwella mynediad i'r system?
- Mae'n bosibl nad yw cost gweinyddu prawf modd yn effeithiol.
- Rhaid i gyflymder, cost ac ansawdd fod yn gyfartal.
- Olrhain cynnydd, pobl i fonitro cynnydd a gwneud yn siŵr bod pethau yn digwydd.
- Mae materion ansawdd yn aml yn ymwneud â gallu, p'un a yw pobl sy'n gwneud y gwaith yn gosod yr offer cywir.

Canllawiau ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig

Isod mae'r holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfweiliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y rheiny ar y gweithgor Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Defnyddiwyd holiadur tebyg gydag awdurdodau lleol.

Cyflwyniad

Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru mae CEL Transform yn cynnal adolygiad trylwyr yn seiliedig ar dystiolaeth o'r hyn sy'n cael ei wneud i weithredu argymhellion adolygiad 2005 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs) a pha gynnydd sydd wedi'i wneud. Fel aelod allweddol o Weithgor y Pwyllgor Cyfle Cyfartal (EOC) hoffem ofyn rhai cwestiynau i chi i gael eich barn ar DFGs yng Nghymru ers 2005. Bydd y cyfweiliad yn para am tua awr. Diolch am gymryd rhan.

Cwestiynau ar gyfer Rhanddeiliaid

Cyffredinol

- Pa effaith ydych yn credu y mae adolygiad 2005 wedi'i chael?
 - Allwch chi nodi gwelliannau penodol sydd wedi dod allan o argymhellion yr adroddiad?
- Beth yw'r prif newidiadau yn yr amgylchedd gweithredu allanol ers adroddiad 2005?
 - Beth yw effaith hyn ar y gwaith o weinyddu DFG?

Deddfwriaeth

- Roedd adrodd 2005 yn feirniadol o'r wybodaeth am DFGs a roddwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth; ydych chi'n credu bod hyn wedi gwella yn y 5 mlynedd ddiwethaf?
 - A oes unrhyw enghreifftiau da iawn o wybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth y dylwn ni edrych arnynt?
 - A ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd rhan fwy gweithgar o ran darparu gwybodaeth ysgrifenedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth?
- Mae'r adroddiad hefyd yn argymhell bod gweithdrefnau syml yn cael eu cyflwyno ar gyfer DFGs o dan £3,000. Nid yw hyn yn ymddangos fel petai wedi digwydd. Pam hynny yn eich barn chi?
 - A oes unrhyw wersi wedi'u dysgu o symleiddio PAG a allai gael ei ddefnyddio i DFGs? Beth ydyn nhw?
 - Beth arall sydd angen digwydd i gyflymu'r gwaith o ddarparu DFGs?
- Ar y cyfan, mae adroddiad 2005 yn teimlo bod y cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer DFGs yn ddigonol. Ydych chi'n credu bod hyn yn wir o hyd?
 - A ddylai DFGs barhau i fod yn orfodol?
 - Mae gan awdurdodau lleol bŵer i godi tâl ar eiddo pan fydd DFGs â chost o fwy na £5,000 wedi'i wneud. Ydy hyn yn ddigonol?
 - Ydych chi'n gwybod am unrhyw awdurdodau lleol sy'n defnyddio hyn?
 - A yw'r deddfwriaeth yn ddigon clir ar gyfrifoldebau o ran cynnal a chadw'r offer a osodwyd?

- A ddylid cyflwyno unrhyw bwerau ychwanegol?
- Un o argymhellion adroddiad 2005 oedd cyflwyno deddfwriaeth oedd yn caniatáu i geisiadau am ganiatâd cynllunio fod ar lwybr cyflym pan fydd addasiadau a ariennir gan DFG yn digwydd. I ba raddau mae hyn yn achosi oedi wrth gwblhau gwaith DFG?

Ariannu

- Argymhellodd adroddiad 2005 y dylai ariannu ar gyfer DFGs fod wedi cysylltu'n agosach ag angen cyffredinol. A yw'r argymhelliad hwn wedi'i ddatblygu, naill ai ar gyfer Cymru gyfan neu ar gyfer awdurdodau lleol unigol?
 - Pa fuddiannau ydych chi'n credu y byddai'r argymhelliad hwn yn eu cyflwyno?
 - Beth yw'r rhwystrau i'w weithredu?

Oedi

- Gwnaeth adroddiad 2005 nifer o argymhellion ynghylch adrodd perfformiad ar gyfer DFGs; ers hynny mae sawl ymgais wedi bod i geisio egluro a gwella'r dangosyddion. Beth yw'r prif broblemau o ran cael gwybodaeth am berfformiad DFG?
 - Pa mor ddefnyddiol yw'r PIs presennol?
 - Pa wybodaeth sydd ei hangen?

Tenantiaid y Cyngor

- Argymhellodd adroddiad 2005 y dylai diffiniad clir gael ei gyflwyno ar gyfer mân addasiadau ac y dylai'r rhain cael eu darparu y tu allan i system DFG. Oes yna ddiffiniad clir? Beth ydyw?
 - Ydych chi'n credu bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi gweithredu'r argymhelliad hwn?
 - Pa fuddiannau ddylai gyflwyno?
 - Oes gennych chi farn o ran pam nad yw'r buddiannau hyn yn fel petaent yn cael eu cyflawni gan rai awdurdodau?
 - Beth ydych chi'n credu yw'r rhwystrau o ran rhai awdurdodau lleol i ddysgu o arfer da mewn awdurdodau lleol eraill?

Tenantiaid RSL

Cafodd gweithdrefnau syml ar gyfer rhai gwaith a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r Grant Addasiadau Ffisegol ar gyfer cymdeithasau tai yn 2008. Ydych chi'n credu bod y rhain wedi cael effaith fuddiol? Sut y gallwn dystiolaethu hyn?

- Mae papur ymgynghori wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar yn cynnig newidiadau i'r Grant Addasiadau Ffisegol ar gyfer cymdeithasau tai.
 - Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn cyflymu'r gwaith o ddarparu addasiadau i denantiaid RSL? Pa fuddiannau eraill y gellid eu darparu drwy'r newidiadau hyn?
 - Pa newidiadau eraill sydd eu hangen i gyflymu'r addasiadau a ddarparwyd gan gymdeithasau tai?

Cofrestrau Tai wedi'u Haddasu ar gyfer Tai Cymdeithasol

- Un o'r argymhellion yn yr adroddiad oedd y dylai awdurdodau lleol gyflwyno cofrestrau tai hygyrch, gan ganiatáu eiddo sydd eisoes wedi'u haddasu i gael eu cyfateb â'r rheiny sydd angen yr addasiadau. Beth yw'r prif anawsterau o ran gweithredu'r argymhelliad hwn?
 - Ydych chi'n credu ei bod yn hyfyw i gael cofrestr tai hygyrch sy'n cwmparu Cymru gyfan?
 - Beth fyddai manteision hyn? Os na, pam ddim?

Mân Addasiadau

- Mae adroddiad 2005 yn argymhell ariannu gwaith llai na £1,000 y tu allan i'r system DFG. Pa fanteision ydych chi'n credu bydd hyn yn eu cyflwyno?
 - Y cynnig oedd y byddai'r gwaith yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol drwy'r gronfa gyfalaf gyffredinol, cyfrif refeniw tai, neu drwy'r gwasanaethau cymdeithasol neu drwy gymdeithasau tai, yn dibynnu ar ddaliadaeth yr ymgeisydd. Beth ydych chi'n ystyried yw'r prif rwystrau i gyflwyno hyn?
 - Oni fyddai'n atgyfnerthu'r broblem o lefelau gwasanaeth gwahanol ar gyfer gwahanol ymgeiswyr? Sut y gellir goresgyn hyn?
- A yw swyddogion nad ydynt yn OTs yn cael eu defnyddio ar gyfer mân waith?
 - Ydych chi'n credu bod nifer yr OTs sy'n gweithio mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu ers adroddiad 2005? (OTs Cyffredinol)
 - A yw diffyg OTs yn fater penodol ar gyfer cyflymu'r gwaith o ddarparu DFGs? Sut y gallwn ni dystiolaeth hyn? Os na, pam ddim? (OTs Cyffredinol)

Rhaglen Addasiadau Brys

- Beth yw'r prif fuddion o'r Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP)?
 - Sut y gallwn dystiolaethau'r rhain?
 - A yw RRAP wedi cael unrhyw effaith ar lefel y galw am DFGs?
 - A oes unrhyw ffyrdd y gallai RRAP a DFGs gydweithio'n well?
 - A yw'r ffiniau yn iawn rhwng y ddwy raglen?

Plant anabl

- Ers adroddiad 2005, mae profion modd ar gyfer teuluoedd plant anabl wedi'u diddymu. Pa fanteision y byddech yn disgwyl gweld yn sgîl hyn, a sut y gallwn dystiolaeth hyn?

Diolch i'r sawl sy'n cael ei gyfweld a gorffen y cyfweiliad.